Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC)

'Ffyniant drwy Bartneriaeth'

Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau
2022-25

Tachwedd 2022

Cynnwys

Rhagair 4

Crynodeb Gweithredol 5

Llywodraethiant 10

- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) 10
- Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC 11
- Grwpiau Clwstwr Sector Blaenoriaeth 11
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 12

Cyd-destun Polisi 14

- Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau 14
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 15
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 16
- Gwarant Pobl Ifanc (GPI) 17
- Y Gymraeg 17
- Sero Net 17
- Sgiliau Digidol 18

Heriau Cenedlaethol 20

- Brexit 20
- Covid-19 (Coronafeirws) 21
- Costau Byw 22

Buddsoddiad Rhanbarthol 24

- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 24
- Porth y Gorllewin 26
- Buddsoddi Arall 26

Hyfforddiant ac Addysg Ôl-16 28

- Addysg Bellach 28
- Addysg Uwch (AU) 28
- Dysgu yn y gwaith (DG) 29
- Addysg Gyrfaoedd, Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau (AGCAG) 29

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur 32

- Demograffeg Rhanbarthol 32
- Data EMSI 37

Cynnwys

Arolwg Sgiliau 41

Ymchwil 45

Sectorau Blaenoriaeth 46

Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch 48

Heriau a Chyfleoedd y Sector 49

Lled-ddargludyddion Cyfansawdd 50

Heriau a Chyfleoedd y Sector 51

Adeiladu 52

Heriau a Chyfleoedd y Sector 53

Creadigol 54

Heriau a Chyfleoedd y Sector 55

Technoleg Ariannol 56

Heriau a Chyfleoedd y Sector 57

Economi Sylfaenol Ddynol: Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys 58

Heriau a Chyfleoedd y Sector 59

Economi Sylfaenol Ddynol: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth 60

Heriau a Chyfleoedd y Sector 61

Cynllun Gweithredu PSPRC 62

Rhagair

Croeso i ail fersiwn Cynllun Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2022-2025. Ein ffocws ar gyfer y Cynllun hwn oedd sicrhau ***'Ffyniant drwy Bartneriaeth'*** *drwy feithrin a chofleidio gwybodaeth gyfunol cynrychiolwyr o fusnesau, addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant a'r llywodraeth ar draws ardal gyfan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a fydd yn llywio ac yn cyflawni effaith wrth ddarparu ffyniant cymdeithasol ac economaidd i ddysgwyr o bob oedran, newydd-ddyfodiaid, a'r gweithlu presennol.*

Mae'r byd gwaith yn newid ar raddfa ddeinamig oherwydd y pandemig Covid, Brexit a marchnadoedd byd-eang sy'n cynnig heriau a chyfleoedd i'n rhanbarth y mae'n rhaid i ni fod yn ystwyth ac yn barod i'w cofleidio a gweithredu'n gadarnhaol arnynt.

Mae ein rhanbarth a'i fusnesau'n gweithredu ar lefel leol, genedlaethol, a byd-eang ar draws ei sectorau ac yn cefnogi ein cynllun sgiliau 3-blynedd 'Ffyniant drwy Bartneriaeth'. Mae'n llywio ac yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i gwaith o gynllunio a chyllido dysgu ôl-16 yn y dyfodol gan sicrhau bod gennym system sgiliau gynaliadwy a arweinir gan alw a fydd yn arwain at fwy o gyflogadwyedd, cynhyrchiant, a ffyniant i'w holl drigolion a busnesau.

Yn aml, sgiliau yw'r prif fater a'r flaenoriaeth i fusnesau. Drwy gydol datblygiad y cynllun hwn rydym wedi clywed mai cael marchnad lafur fedrus a galluog sy'n barod i gofleidio diwydiannau'r dyfodol yw'r rhagofyniad ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau. Rydym yn credu bod ein cynllun yn cydnabod ac yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar ystod eang o bartneriaid i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau a'r prinder sgiliau sy'n rhwystr i dwf ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a byddwn yn cefnogi'r amcanion a amlinellir yng Nghynllun Diwydiannol ac Economaidd P-RC.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau ein bwrdd, ddoe a heddiw, sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd i ni, pob busnes sy'n ymwneud â grwpiau'r sector; mae eich mewnbwn a'ch cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy.

Leigh Hughes
Cadeirydd, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC

Crynodeb Gweithredol

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn gweithredu fel corff strategol i gynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur wedi'i halinio â data economaidd. Trwy ddatblygu cynllun cyflogaeth a sgiliau, ceir mecanwaith i adolygu'r ddarpariaeth sgiliau ranbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu yn y dyfodol yn seiliedig ar ofynion cyflogwyr - gan sicrhau i bob pwrpas fod cymaint o arian â phosib ar gael yn y dyfodol ac ysgogi arloesedd.

Arweiniwyd y gwaith o ddatblygu'r cynllun cyflogaeth a sgiliau gan PSPRC ac mae wedi cynnwys cydweithio â darparwyr busnes, addysg a hyfforddiant, rhanddeiliaid allweddol, a Llywodraeth Cymru. Fe'i llywiwyd gan Raglen Lywodraethu 5 mlynedd 2021-26, Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd yr argymhellion yn y cynllun yn helpu i lywio a dylanwadu ar ddull Llywodraethau Cymru o ymdrin â chyllido dysgu ôl-16, ac yn manylu ar sut y bydd camau gweithredu'n cefnogi Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) er mwyn hybu twf economaidd a chynhwysol yn y rhanbarth.

"Ein cenhadaeth yw i adnabod ac ymateb i anghenion cymdeithasol, economaidd a sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i nodi anghenion sgiliau presennol a'r dyfodol a chynllunio'n unol â hynny, a galluogi ymateb rhanbarthol cynhwysol i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Pholisi a mentrau Llywodraeth Cymru".

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi datblygu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau o dan saith thema allweddol drawsbynciol gyda'r nod dros y tair blynedd nesaf i:

1. **CRYFHAU'R CYNNIG ADDYSG BELLACH ÔL-16 MEWN SECTORAU Â BLAENORIAETH TRWY FWY O ARBENIGO I ATEB Y GALW GAN GYFLOGWYR LEDLED Y DDINAS-RANBARTH.**
2. **EHANGU'R CYNNIG PRENTISIAETHAU AR LEFELAU UWCH DRWY YMATEB I NEWIDIADAU I BOLISI'R LLYWODRAETH**
3. **YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID ALLWEDDOL WRTH DDARPARU AGENDA CYFLOGADWYEDD CYMRU A THARGEDU'R UNIGOLION SYDD BELLAF O'R FARCHNAD LAFUR**
4. **HYRWYDDO TECHNOLEG DDIGIDOL FEL SECTOR 'GALLUOGI' ALLWEDDOL A CHREU GWEITHLU SYDD Â'R SGILIAU DIGIDOL, Y GALLU, A'R HYDER I RAGORI YN Y GWEITHLE AC MEWN BYWYD BOB DYDD**
5. **DATBLYGU SGILIAU I GEFNOGI'R BROSES O DROSGLWYDDO TUAG AT ECONOMI CARBON ISEL**
6. **DYLANWADU AR WAITH CYMWYSTERAU CYMRU A SICRHAU BOD CYMWYSTERAU SY'N DOD I'R AMLWG YN DIWALLU ANGHENION Y DIWYDIANT**
7. **ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU O RAN ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD AR YRFAOEDD I FYND I'R AFAEL Â CHANFYDDIAD SECTORAU A HYRWYDDO SECTORAU ALLWEDDOL FEL DEWISIADAU GYRFA REALISTIG**

1. **Cryfhau'r cynnig addysg bellach ôl-16 mewn sectorau â blaenoriaeth trwy fwy o arbenigo i ateb y galw gan gyflogwyr ledled y Ddinas-Ranbarth.**

Mae PSPRC wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ariannu darpariaeth ôl-16 yn cyd-fynd yn well ag anghenion diwydiant. Mae PSPRC hefyd wedi gweithio gyda darparwyr rhanbarthol addysg bellach ac uwch i lywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac i sicrhau bod modd mynd i'r afael â bylchau sgiliau wrth yrru twf economaidd. Trwy broses gymeradwyo, mae PSPRC hefyd wedi sicrhau bod cymwysterau sy'n cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP) yn ateb galw'r diwydiant.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Gyrru blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth ôl-16 drwy wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ac ehangu'r cynnig rhanbarthol CDP
- Cyd-ddatblygu piblinellau talent drwy fodelau Academi / Bwtcamp fel ymyriadau sgiliau targedig a hyblyg sy'n para tua 12 wythnos
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) arfaethedig i gyflawni'r uchelgais o system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gydgysylltiedig.

2. **Ehangu'r cynnig Prentisiaethau ar lefelau uwch drwy ymateb i newidiadau i bolisi'r llywodraeth.**

Mae PSPRC yn gwbl gefnogol i uchelgais Llywodraethau Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau dros dymor y Senedd a'r awydd i gynyddu cyfleoedd i bobl o bob oedran a chefndir ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy yn y gweithle a chynyddu eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae PSPRC wedi dylanwadu ar gynnwys Fframweithiau Prentisiaeth wedi'u hadnewyddu ac mae wedi mapio'r cynnig rhanbarthol sy'n gysylltiedig â Gradd-brentisiaethau i arddangos ehangder y cyfleoedd sydd ar gael.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Defnyddio tystiolaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau Prentisiaeth newydd ar bob lefel.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar brentisiaethau ar draws sectorau blaenoriaeth (gan gynnwys Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau) ac adeiladu ar fodelau llwyddiannus Aspire, Y Prentis a Sgil Cymru.
- Recriwtio mwy o hyfforddwyr ac aseswyr er mwyn sicrhau capasiti o fewn Dysgu yn y Gwaith ôl-16

3. **Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu agenda cyflogadwyedd Cymru a thargedu'r unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur.**

Mae PSPRC yn gwbl ymwybodol o effaith bosibl Brexit a cholli cyllid yr UE ar gyfer prosiectau a rhaglenni sy'n cefnogi cyflogadwyedd a sgiliau ar draws y rhanbarth. Bydd PSPRC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a rhanddeiliaid allweddol i wella'r rhagolygon cyflogaeth ar gyfer pobl sy'n economaidd anweithgar ac alinio ag anghenion cyflogwyr. Wedi'i lywio gan PSPRC, mae'r prosiect CELT wedi'i ddarparu'n llwyddiannus ar draws y rhanbarth, gyda darpariaeth yn cefnogi unigolion yn uniongyrchol i gael gwaith mewn sector blaenoriaeth.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Dylanwadu ar gyfeiriad gweithgareddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig y rheini yn gysylltiedig â 'Phobl a Sgiliau', a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ledled De-ddwyrain Cymru.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Gwarant Pobl Ifanc (GPI), sy'n cynnig cymorth i mewn i waith, addysg, hyfforddiant, neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 i sicrhau na fydd unrhyw genhedlaeth yn cael ei cholli ledled Cymru.
- Cynhyrchu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur (GFL) i lywio datblygiad a darpariaeth prosiectau a rhaglenni sy'n dod i'r amlwg.

4. Hyrwyddo technoleg ddigidol fel sector 'galluogi' allweddol a chreu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu, a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd.

Mae'r diwydiant technoleg ddigidol yn datblygu, dylunio, a gweithredu technolegau sy'n galluogi a thrawsnewid diwydiannau ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru a chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn byw a gweithio. Mae PSPRC wedi cyd-gynhyrchu deunydd marchnata i hyrwyddo datblygiadau sylweddol ar draws y sector, sy'n cael ei ddefnyddio fel mecanwaith i ddenu mewnfuddsoddiad.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Datblygu ymhellach y diwydiant Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn cadw i fyny ag anghenion diwydiant.
- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau critigol a hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant gwerthwr a gynigir drwy'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP).
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau Lefel Gradd.

5. Datblygu sgiliau i gefnogi'r broses o drosglwyddo tuag at economi carbon isel.

Cyflawnodd PSPRC brosiect ymchwil cydweithredol a nododd swyddi 'gwyrdd' sy'n dod i'r amlwg ac a asesodd fylchau a phrinder sgiliau cysylltiedig. Awgrymodd canfyddiadau fod ystod eang o heriau yn ymwneud â'r chwyldro gwyrdd gan gynnwys yr angen i gynyddu datblygiad a chynnig darpariaeth hyfforddiant addas at y diben Trwy'r CDP, mae PSPRC wedi gweithio i gynyddu nifer y cymwysterau a ariennir i gefnogi cyflogwyr i symud tuag at economi carbon isel.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Grymuso cyflogwyr i bontio tuag at sero net a dylanwadu ar ddatblygiad SGC i adlewyrchu rolau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Adrodd ar y rhwystrau i gwrdd â gofynion sero net ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu Prentisiaethau a chyflwyno cymwysterau i gwrdd â dyheadau.
- Datblygu dulliau gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys SWIC a TUC Cymru a datblygu rhaglenni gwaith ar y cyd.

6. Dylanwadu ar waith Cymwysterau Cymru a sicrhau bod cymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn diwallu anghenion y diwydiant

Drwy'r Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau, a grwpiau clwstwr cynhaliol, mae PSPRC wedi cefnogi ystod eang o adolygiadau sector a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru gan gynnwys y rheini sy'n canolbwyntio ar Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch a Theithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo. Mae PSPRC hefyd wedi dadlau dros ddatblygu SGC diwydiant newydd a diwygiedig sy'n darparu'r blociau adeiladu ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol a yrrir gan y sector, a achredir gan Cymwysterau Cymru.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Gweithio gyda Cymwysterau Cymru drwy eu hadolygiadau sector a chydweithio fel rhan o brosesau gweithredu.
- Dylanwadu ar Colegau Cymru, FfHCC a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i gyflawni yn erbyn gofynion newydd.
- Ymgysylltu â 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' i ail-lunio'r dirwedd gymwysterau drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddefnyddio grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth.

7. Adeiladu ar ddulliau gweithredu o ran addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i fynd i'r afael â chanfyddiad sectorau a hyrwyddo sectorau allweddol fel dewisiadau gyrfa realistig.

Mae PSPRC wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru i fapio'r gweithgareddau Addysg, Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd (AGCAG) a gyfarwyddir gan gyflogwyr ar draws sectorau blaenoriaeth rhanbarthol. Mae canfyddiadau'r prosiect ymchwil hwn wedi llywio datblygiad Cynllun Gweithredu ar y cyd Gyrfa Cymru – PSPRC. Fel rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol, mae PSPRC hefyd wedi gweithio gydag Addewid Caerdydd i wella cyfleoedd dysgu i athrawon a thrwy'r peilot Profiad Gwaith ac wedi codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y sector blaenoriaeth rhanbarthol.

Wrth symud ymlaen bydd PSPRC yn:

- Cydweithio â Gyrfa Cymru wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu AGCAG ar y cyd.
- Hyrwyddo mentrau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd gan gynnwys cynllun Venture P-RC, rhaglenni awdurdod lleol fel y fenter Addewid Caerdydd a rhaglenni cenedlaethol fel y Gyfnewidfa Addysg Busnes a'r Cynllun Partner Gwerthfawr.
- Ysbrydoli busnesau i ymgysylltu ag ysgolion fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r thema trawsbynciol Gyrfaoedd a Phrofiadau Gwaith (GPhG).

Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC)

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yng Nghymru i helpu i gynghori ar gyfeiriad strategol teithio ar gyfer sgiliau yn rhanbarthau De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru. Gofynnir i'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol lywio a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar feysydd polisi allweddol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltu cryf â chyflogwyr a rhanddeiliaid rhanbarthol.

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn rhan o ddull ehangach Llywodraeth Cymru o ddatblygu economaidd drwy gryfhau cynllunio strategol ar lefel ranbarthol, ochr yn ochr â datblygu a gweithgarwch y Bargeinion Dinas a Thwf perthnasol. Y pedwar prif weithgarwch ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sydd wedi eu nodi gan Lywodraeth Cymru yw;

- cynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur sy'n cyd-fynd â gwybodaeth economaidd er mwyn llywio'r gofynion sgiliau yn y rhanbarthau a llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu yn y dyfodol
- darparu dull o adolygu'r ddarpariaeth sgiliau rhanbarthol a chynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu cyllid sgiliau yn y dyfodol yn unol ag anghenion cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol
- gweithredu fel corff strategol sy'n cynrychioli buddiannau rhanbarthol yn effeithiol er mwyn llywio system sgiliau cynaliadwy sy'n seiliedig ar alw, gan sicrhau bod hyn yn cael ei lywio gan ymgysylltu cryf â'r diwydiant ac yn ystyried lefel y defnydd o sgiliau yn y rhanbarth
- gweithredu ar y cyd ac yn strategol i sicrhau'r arian mwyaf posibl yn y dyfodol gan gydnabod y gostyngiad tebygol mewn arian cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf



Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys ardal o Dde-ddwyrain Caerdydd, yn cynnwys y deg awdurdod lleol; Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerdydd, Caerffili, Merthyr, Sir Fynwy, Casnewydd, Tor-faen, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Rôl PSPRC yw datblygu potensial cymdeithasol ac economaidd P-RC, cefnogi pobl a busnesau i greu rhanbarth llewyrchus sy'n perfformio'n dda ac sy'n sbarduno mewnfuddsoddiad. Mae'n gyfrifol am bennu blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer buddsoddiad sgiliau yn ôl anghenion y diwydiant ac yng nghyd-destun dealltwriaeth lawn o'r tirlun economaidd cyfnewidiol.

Mae'r Bartneriaeth yn tynnu ynghyd ystod eang o randdeiliaid, yn cynnwys busnesau; cyrff diwydiannol; sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach; darparwyr hyfforddiant; ysgolion; awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae datblygu'r sgiliau cywir yn allweddol i gynyddu cynhyrchedd ac effeithlonrwydd, er mwyn gwneud hyn, mae PSPRC wedi sefydlu Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau ac wedi atgyfnerthu'r dystiolaeth sydd ganddo trwy ymchwil a rhagor o gydweithio gan gyflogwyr a rhanddeiliaid. Mae PSPRC hefyd wedi sefydlu grwpiau clwstwr o'r sector, pob un wedi'i arwain gan ddiwydiant ac yn cysylltu â chynrychiolwyr o bob rhan o addysg, i gasglu gwybodaeth am y bylchau sgiliau a'r heriau sy'n effeithio ar sectorau blaenoriaeth y rhanbarthau.

Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC

Y weledigaeth ar gyfer Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC yw creu partneriaeth strategol i ddatblygu potensial cymdeithasol ac economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cefnogi pobl a busnesau i greu rhanbarth llewyrchus sy'n perfformio'n dda ac sy'n sbarduno mewnfuddsoddiad. Nod y Bwrdd yw darparu arweiniad strategol ar gyfer cyflogaeth a sgiliau ar draws y rhanbarth, tra'n gwella'r broses o gasglu a rhannu data cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol, a gwybodaeth. Mae'r aelodau yn nodi ac y datblygu ymatebion ar y cyd i flaenoriaethau strategol rhanbarthol, gan sicrhau bod gan y rhanbarth seilwaith dysgu a sgiliau rhagorol sy'n arloesi i ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol y rhanbarth.

Mae aelodau Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC yn cynrychioli'r economi ranbarthol gyda phob aelod yn mabwysiadu rôl genhadol ac yn hyrwyddo gwaith y bartneriaeth ar draws eu rhwydweithiau cysylltiedig. Mae'r gweithgaredd hwn yn gwella ymgysylltu ac yn sicrhau'r cyrhaeddiad gorau posibl ar draws y llu o rwydweithiau busnes a strwythurau economaidd ehangach o fewn y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd yn aml yn nodi camau strategol lle mae'n ofynnol i gynrychiolwyr busnes a hyrwyddwyr y sector arwain gweithgarwch ymgysylltu; yn enwedig o fewn y sectorau a nodwyd fel sectorau blaenoriaeth. Mae hyrwyddwyr y sector yn cysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant o bob rhan o gymunedau busnes ehangach ar lefel sectoraidd. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau'r effaith gorau posibl a sicrhau y gall ystod eang o gyflogwyr ymgysylltu â gwaith PSPRC a chwarae rôl ganolog i nodi a mynd i'r afael â blaenoriaethau'r diwydiant.

Grwpiau Clwstwr Sector Blaenoriaeth

I gefnogi gweithgareddau ymgysylltu ac i hyrwyddo perthnasoedd gweithio cadarnhaol â chyflogwyr, mae Partneriaeth Sgiliau PSPRC yn parhau i gefnogi chwe grŵp clwstwr diwydiannol. Mae'r grwpiau clwstwr yn alinio'n uniongyrchol â'r sectorau sydd wedi eu nodi'n flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth ac ysgogir pob un gan yr hyrwyddwr sector perthnasol:

- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
- Adeiladau
- Creadigol
- Technoleg Ariannol
- Economi Sylfaenol Ddynol: Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys
- Economi Sylfaenol Ddynol: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth

Yr Economi Sylfaenol Greadigol a Dynol: Ffurfiwyd grwpiau clwstwr Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth ers lansio'r cynllun cyflogaeth a sgiliau blaenorol i sicrhau bod ymgysylltu o ansawdd â rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau hynny. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda FinTech Wales i ddefnyddio eu rhwydweithiau presennol a chysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y sector technoleg ariannol. Mae cysondeb yng nghylch gorchwyl y grŵp clwstwr, eitemau agenda'r cyfarfod a threfniadau adrodd. Mae pob grŵp (drwy hyrwyddwr y sector) yn diffinio'r strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac fel y nodwyd eisoes, defnyddir rhwydweithiau presennol i osgoi dyblygu.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd »»

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen unigryw o gydweithio sydd wedi ymrwymo i fod yn gatalydd ar gyfer twf rhanbarthol a llwyddiant cynaliadwy. Yn cynnwys tîm ymroddedig, a chronfa fuddsoddi 1.2bn wedi'i glustnodi, mae'n un o'r prif fecanweithiau ar gyfer P-RC i weithredu ei uchelgeisiau twf a'i flaenoriaethau strategol.

Mae'r fargen yn amlinellu'r cyd-ymrwymiadau a wnaed gan ddeg awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatgloi £1.2bn o gyd-fuddsoddiad. Fe'i cynlluniwyd i adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei sylfaen sgiliau uchel a thair prifysgol lwyddiannus a chyflymu twf economaidd a chynhyrchiant drwy gyfres o fuddsoddiadau a dargedwyd mewn sgiliau, seilwaith, prosiectau a arweinir gan arloesedd y gellir eu tyfu ar raddfa a sectorau diwydiant a busnesau â blaenoriaeth.

Dros ei hoes o 20 mlynedd y canlyniadau a ddymunir o'i rhaglenni ymyrraeth (£734m ohonynt wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiadau Metro gyda'r £495m sy'n weddill ar gael trwy gronfa fuddsoddi ehangach) yw y bydd wedi creu 25,000 o swyddi newydd, wedi cynhyrchu £4bn ychwanegol o fuddsoddiad gan y sector preifat i'r rhanbarth a chynyddu GYC 5%. [1]

Mae Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC yn un o bum Bwrdd Cynghori, gan gynnwys y Bartneriaeth Twf Economaidd, Panel Buddsoddi, Cyngor Busnes a Bwrdd Rhaglen sy'n cefnogi buddsoddiadau ac ymyriadau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.



1 https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/y-fargen-ddinesig/

Cyd-destun Polisi

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn amlinellu ymrwymiadau uchelgeisiol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a gwella bywydau pobl ledled Cymru. Drwy'r rhaglen, canolbwyntiwyd ar yrru economi Gymreig gryfach, fwy cystadleuol drwy gau'r bwlch sgiliau a mynd i'r afael â thegwch ac anghydraddoldeb - er mwyn hybu swyddi da a chodi pobl allan o dlodi.

Drwy'r rhaglen, gwnaed ymrwymiad i gryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRhau). Mae PSRhau yn cynghori Llywodraeth Cymru ar y cyfeiriad strategol ar gyfer sgiliau ac yn gwneud argymhellion ar feysydd twf neu ddirywiad, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltu cryf â chyflogwyr a rhanddeiliaid. Mae pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yn gweithredu ar draws rhanbarthau Cymru (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain) ac mae pob un wedi cael y dasg gan Lywodraeth Cymru i gyflawni rolau a fynegir trwy 'Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau'.

Wedi'i chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd, mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn ymgymryd â rôl y PSRh ar draws y 10 Awdurdod Lleol yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'n arwain y gwaith o ddarparu rhaglen waith a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru.

Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddull rhanbarthol o ran sgiliau gydag uchelgais i ysgogi'r galw drwy ddulliau hyblyg sy'n mynd i'r afael â'r angen lleol a rhanbarthol. Wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig, a wynebu heriau Brexit a'r Newid yn yr Hinsawdd, nid yw'r gallu i ddysgu, hyfforddi a symud ymlaen yn y gwaith erioed wedi bod mor bwysig.

Mae Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach yn ategu'r blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ac yn manylu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â heriau allweddol sy'n gysylltiedig â phobl a sgiliau. I gyflawni'r Cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu 5 maes allweddol ar gyfer gweithredu:

1. Cenedlaethau'r Dyfodol: Buddsoddi mewn pobl ifanc i'w galluogi i wireddu eu potensial
2. Cydraddoldeb Economaidd: Ysgogi a chefnogi oedolion sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith i ddod o hyd i gyflogaeth a datblygu oddi mewn iddi
3. Gwaith Teg i Bawb: Gwella cyflog, ansawdd ac argaeledd cyflogaeth yng Nghymru.
4. Gwaith Iach, Cymru Iach: Cefnogi pobl anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd mewn gwaith
5. Dysgu Am Oes: Gwella sgiliau a lefelau cymhwyster, a symudedd pobl i mewn ac allan o waith

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru lle gall unigolion o bob oedran gael addysg o ansawdd uchel, gyda swyddi i bawb, lle gall busnesau ffynnu mewn economi sero net sy'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb. Bydd PSRhau yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r dyhead hwn. Bydd PSPRC yn gweithredu fel rhyngwyneb hanfodol i gynrychioli sgiliau a gofynion galwedigaethol cyflogwyr a darparu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur a fydd yn llywio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol drwy saith nod lles ar gyfer y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig gydweithio i wella lles Cymru.

Er nad yw PSPRC yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ar hyn o bryd, rydym o'r farn bod ein rôl yn cefnogi ei diben. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn egluro bod hyn yn golygu ystyried datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol; o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud; y ffordd yr ydym yn ei wneud; a'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu'r gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud. Mae'n naturiol i ni weithio fel hyn, gan fod cynllunio sgiliau yn gofyn am gael golwg hirdymor. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd gydag ystod eang o bartneriaid ar draws y llywodraeth, busnes, a'r sector addysg a hyfforddiant.

Mae PSPRC yn croesawu'r ddeddf a thros gyfnod y cynllun bydd yn cyfrannu at y saith nod lles a ategir gan y pum ffordd o weithio drwy:

1	CYMRU LEWYRCHUS	DRWY WEITHIO GYDA'N GRWPIAU SECTOR BYDDWN NI'N SICRHAU BOD DARPARIAETH ADDYSG A HYFFORDDIANT YN DIWALLU ANGHENION CYFLOGEION.
2	CYMRU GYDNERTH	ANNOG MANTEISIO AR GYFLEOEDD CYFLOGAETH A ALL GODI DRWY NEWID YN YR HINSAWDD A LLINIARU
3	CYMRU IACHACH	MANTEISIO I'R EITHAF AR GYSYLLTIADAU CADARNHAOL RHWNG IECHYD, SWYDDI, A FFYNIANT A MYND I'R AFAEL Â RHWYSTRAU I WEITHIO I HELPU UNIGOLION I GYFLAWNI EU LLAWN BOTENSIAL
4	CYMRU FWY CYFARTAL	DEFNYDDIO DULLIAU EFFEITHIOL O YMDRIN AG ADDYSG GYRFAOEDD, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD I SICRHAU CYNWYSOLDEB A HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL I BAWB
5	CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNOL	DATBLYGU DADANSODDIAD SGILIAU AR GYFER SEILWAITH FFISEGOL A DIGIDOL ER MWYN DEALL Y CYFLEOEDD SGILIAU, YR HYFFORDDIANT, A'R CYFLOGAETH YN WELL
6	CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R IAITH GYMRAEG YN FFYNNU	ANNOG CYDNABOD Y GYMRAEG FEL SGIL YMHLITH BUSNESAU, DYSGWYR A DARPARWYR ADDYSG
7	CYMRU SY'N GYFRIFOL YN FYD-EANG	NODI A MANTEISIO AR Y SGILIAU A'R CYFLEOEDD HYFFORDDI A FYDD YN CODI DRWY NEWID I ECONOMI CARBON ISEL

Mae PSPRC o'r farn y gallai gael effaith fawr ar 'Gymru lewyrchus'. Mae ein gwaith yn cyfrannu at ddatblygu system sgiliau ystwyth ac ymatebol yn y rhanbarth i ddiwallu anghenion unigol a busnes a fydd yn galluogi mwy o bobl i symud i swyddi sgiliau uwch a sicrhau bod gweithwyr mwy medrus ar gael i gefnogi busnesau. Dylai hyn gyflymu twf economaidd a chynhwysol yn y rhanbarth a gwella ffyniant.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn egwyddor bwysig sy'n gyrru gwaith PSPRC. Credwn yn gryf y dylai pob person gael ei drin yn deg, yn enwedig y rhai sydd fwyaf ar y cyrion. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn llwyr gefnogi dyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru fwy cyfartal, gwlad sy'n sicrhau tegwch mynediad i wasanaethau, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a cheisio canlyniadau tecach i ddinasyddion, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ni fu hyn erioed mor bwysig gan fod y bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf mewn cymdeithas yn parhau i ehangu a lleisiau eithafol yn manteisio ar y cyfryngau i hyrwyddo eu hagendâu o anoddefgarwch a chasineb at eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 sy'n canolbwyntio ar y nodau, yr amcanion a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau Cymru fwy cyfartal. Yma, mae amcanion hirdymor, ac amcanion cydraddoldeb wedi eu datblygu er mwyn cryfhau a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Cael gwared ar anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.
2. Mesurau diogelu hawliau dynol a chydraddoldeb cryf a blaengar i bawb yng Nghymru.
3. Mae anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig wrth wraidd gwaith cynllunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
4. Mae Cymru'n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol. Mae Cymru o gydraddoldeb rhywiol yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal ar gyfer pob menyw, dyn a pherson anneuaidd.
5. Dileu gwahaniaethu, erledigaeth, cam-drin, aflonyddu, troseddau casineb a bwlio yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.
6. Cymru llawn cymunedau cydlynol sy'n wydn, yn deg ac yn gyfartal.
7. Mae pawb yng Nghymru yn gallu cymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a phob dydd.
8. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol enghreifftiol.

Mae PSPRC yn credu bod hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o nodweddion Gwaith Teg fel y nodir yn Gwaith Teg Cymru. Mae sicrhau economi gynhwysol yng Nghymru lle gall pawb ffynnu, a lle nad oes unrhyw un yn cael eu gadael ar ôl, yn sylfaenol i Gymru fwy cyfartal. Mae gwaith teg yn cyfrannu at dwf a ffyniant cenedlaethol a gall helpu i gyflawni economi gryfach, modern a mwy cynhwysol. Mae Gwaith Teg hefyd yn elfen allweddol o'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael sy'n cael ei ddatblygu. Mae hyn yn debygol o ddod yn ddeddfwriaeth yn 2023 a bydd yn ategu'r Rhaglen Lywodraethu, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth symud ymlaen, bydd PSPRC yn gweithio gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys TUC Cymru, i hyrwyddo egwyddorion Gwaith Teg a'r buddion busnes cysylltiedig gan gynnwys recriwtio a chadw staff, cael mwy o ymrwymiad gan weithwyr a'r enw da gwell a ddaw o fod yn gyflogwr Gwaith Teg.

Gwarant Pobl Ifanc (GPI)

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 hefyd yn nodi ymrwymiad uchelgeisiol i gyflawni'r Gwarant Pobl Ifanc (GPI) - gan gynnig cymorth i bawb o dan 25 oed i mewn i waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.

Sefydlwyd y GPI er mwyn sicrhau na gollwyd unrhyw genhedlaeth ledled Cymru oherwydd y dirywiad economaidd a ragwelwyd a'r cynnydd mewn diweithdra oherwydd Covid a Brexit. Fodd bynnag, mae'r farchnad swyddi wedi gwella'n gynt o lawer na'r hyn a ragwelwyd ac mae'n ymddangos ei bod yn fywiog gyda'r galw mewn rhai meysydd yn drech na'r cyflenwad. Fodd bynnag, mae gan y GPI rôl bwysig i'w chwarae o hyd o ran cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod polisi o ddod yn Gymru gryfach, decach a gwyrddach.

Er mwyn cefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r GPI, mae PSPRC wedi gweithio i nodi'r amrywiaeth eang o raglenni sydd eisoes yn cefnogi pobl ifanc ledled De-ddwyrain Cymru ac i ddeall y dirwedd ranbarthol yn well. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y GPI yn gallu bodloni anghenion pobl ifanc yn y dyfodol.

Y Gymraeg

Mae i'r Gymraeg arwyddocâd yn y rhanbarth ac mae'n hanfodol i ddiwylliant a gwead Cymru yn ehangach. Mae PSPRC yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050' a'r dyhead heriol i weld nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf o ran y ddarpariaeth Gymraeg, a'r dewis a gynigir i fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae mwy y gellir ei wneud i adeiladu ar y cynnydd hwn ac yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant ôl-16.

Drwy ein Harolwg Sgiliau 2022, dywedodd tua 12% o'r ymatebwyr eu bod ar hyn o bryd yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â sgiliau Cymraeg, ac yn fwy arwyddocaol, roedd bron i 20% yn rhagweld y byddai sgiliau yn y Gymraeg yn her fusnes sylweddol ar gyfer y dyfodol. Drwy ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a grwpiau clwstwr, mae'n amlwg bod yr awydd am y Gymraeg yn amrywio ar draws y sectorau. I ymhelaethu, mae sectorau creadigol, a sectorau sy'n sylfaen i'r economi sylfaenol, er enghraifft, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, gofal plant, twristiaeth a lletygarwch yn aml yn nodi gofyniad cryf am sgiliau Cymraeg. Mae sectorau eraill yn dangos, er eu bod yn gwerthfawrogi'r Gymraeg yn ddiwylliannol, nad yw'n hanfodol ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Bydd cyflogwyr yn gobeithio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu busnes drwy logi staff sydd â sgiliau Cymraeg. Ond, diffyg ymgeiswyr â'r sgiliau perthnasol fu'r prif rwystr i wella sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Gan symud ymlaen, bydd PSPRC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r ddarpariaeth sgiliau iaith Gymraeg drwy addysg a hyfforddiant ôl-16.

Sero Net

Mae cynhesu byd-eang wedi'i achosi'n afresymol gan ymddygiad dynol ac mae newidiadau pellach i'r hinsawdd yn anochel drwy wres a glaw mwy eithafol. Mae treftadaeth ddiwydiannol De-ddwyrain Cymru wedi gadael etifeddiaeth o risg hinsawdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac mae'n rhaid i ni nawr gymryd cyfrifoldeb cyfunol i leihau rhagor o newidiadau hinsoddol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn hyn o beth, mae gwaith Clwstwr Diwydiannol De Cymru (CDDC) yn arwyddocaol.

Mae CDDC yn bartneriaeth rhwng diwydiant Cymru, cyflenwyr ynni, darparwyr seilwaith, y byd academaidd, y sector cyfreithiol, darparwyr gwasanaethau a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Dyfarnwyd cyllid sylweddol i CDDC fapio a datblygu'r hyn sydd ei angen i gefnogi De Cymru i ddod yn rhanbarth carbon sero net erbyn 2050 ac i wrthdroi dirywiad diwydiant trwm a chreu ffyniant economaidd.

Yn yr un modd, mae gan bartneriaeth Porth y Gorllewin rôl allweddol i'w chwarae wrth bontio tuag at sero net. Yn cynnwys awdurdodau lleol, dinas-ranbarthau, partneriaethau menter lleol a Llywodraethau ledled Cymru a San Steffan, ac yn ymestyn ar draws De Cymru a Gorllewin Lloegr, hwn yw pwerdy pan-ranbarthol cyntaf y DU i gwmpasu dwy wlad. Mae Porth y Gorllewin yn gweithio i yrru ymdrechion y DU i gyrraedd sero net tra hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl. Drwy rannu adnoddau, syniadau a gwybodaeth, mae'r bartneriaeth yn gweithio i barhau i fod ar flaen y gad yn yr agenda carbon isel ac yn ymdrechu i fod yn esiampl fyd-eang ar gyfer ynni.

Mae PSPRC yn llwyr gefnogi dull Llywodraeth Cymru o gyrraedd sero net ac o ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Ni fydd uchelgeisiau'n cael eu cyflawni yn ddiofyn a bydd angen datblygu camau cydweithredol a chynnydd. Trwy'r Cynllun Sero Net, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio arwyddocâd degawd o weithredu a phwysigrwydd datblygu sgiliau gwyrdd ar gyfer swyddi'r dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, mae PSPRC hefyd yn cefnogi'r egwyddorion a nodir o fewn Adroddiad TUC Cymru 'Adferiad gwyrdd a thrawsnewidiad cyfiawn' a'i gynllun pum pwynt tanategol . Gweithio mewn partneriaeth fydd y catalydd ar gyfer sicrhau adferiad gwyrddach a thecach a llwybr at Gymru sero net.

Yn naturiol, bydd angen sgiliau a swyddi newydd ar draws y diwydiant a'r llywodraeth i wynebu heriau. Mae disgwyl i nifer o'r swyddi newydd hyn fod yn rhai sy'n talu'n dda ac sy'n gofyn am sgiliau uchel ac a allai ddarparu cyfleoedd i adleoli gweithwyr o'r sectorau diwydiannol traddodiadol. Bydd hefyd ehangu o ran cyflogaeth sgiliau is yn y sector adnewyddu ac adeiladu.

Wedi'i gyhoeddi yn Hydref 2022, bydd Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru yn nodi sgiliau fel galluogwr allweddol ar gyfer y daith sero net a bydd yn gwella mynediad at hyfforddiant sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer datgarboneiddio llwyddiannus. Bydd PSPRC yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun hwn a bydd yn adrodd ar y rhwystrau i gwrdd â'r nod sero net ac yn eirioli dros gymwysterau yn seiliedig ar ddeallusrwydd cadarn gan gyflogwyr. Bydd hyn yn caniatáu i PSPRC adeiladu ar y gwaith a wnaed gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRhau) eraill[2], ac mewn cydweithrediad â Data Cymru, a ddechreuodd nodi swyddi gwyrdd newydd ac asesu bylchau sgiliau cysylltiedig.

Sgiliau Digidol »»

Mae'r diwydiant Technolegau Digidol a Galluogol yn sector allweddol ar gyfer economi Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r sector a elwir yn TGCh yn draddodiadol, sydd bellach yn deitl henffasiwn, yn datblygu, yn dylunio ac yn gweithredu technolegau sy'n galluogi ac yn gweddnewid diwydiannau ar draws Cymru a'r rhanbarth ac yn chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio. Mae newid digidol wedi cyflymu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r galw am sgiliau digidol wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn pandemig Covid-19 yn ddiweddar ac ar draws yr economi ranbarthol.

O ystyried ei arwyddocâd, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei Strategaeth Ddigidol i Gymru sy'n gosod gweledigaeth genedlaethol ar gyfer cyd-fabwysiadu dull digidol ledled Cymru ac i sbarduno arloesedd ledled economi Cymru. Drwy'r strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn nodi chwe chenhadaeth sy'n sail i'r broses gyflenwi gan gynnwys gwasanaethau digidol, cynhwysiant digidol, sgiliau digidol, yr economi ddigidol, cysylltedd digidol a data a chydweithio.

2 Marchnad lafur yfory – swyddi, sgiliau a'r newid i economi werdd...

Er mwyn canolbwyntio ar sgiliau digidol (cenhadaeth 3), gwneir ymrwymiadau i greu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd. Yma, yr uchelgais yw i bawb, beth bynnag fo'u hoedran, rhyw gefndirol ac ethnigrwydd gael eu cynnwys yn ddigidol. Pan fydd pobl yn hyderus wrth ddefnyddio sgiliau digidol sylfaenol, efallai y byddan nhw wedyn yn cael eu hysgogi i ddatblygu sgiliau digidol mwy datblygedig ac sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth. Gall hyn agor ystod eang o gyfleoedd mewn bywyd bob dydd ac yn y gweithle.

Wedi'i alinio â'r Strategaeth Ddigidol, cyhoeddodd yr Athro Phil Brown ei adroddiad terfynol i effaith arloesedd digidol ar yr economi a dyfodol gwaith yng Nghymru ym mis Medi 2019. Soniodd am Gymru yn wynebu "ras yn erbyn amser", gyda chyflymder a graddfa arloesedd digidol â'r potensial i oddiweddyd ein gallu fel cenedl i ymateb. Rhoddodd ei adroddiad werthusiad o'r realiti a'r tueddiadau a fydd yn llywio dyfodol gwaith yng Nghymru a gyrwyr sylfaenol economi Cymru yng nghyd-destun y pedwerydd chwyldro diwydiannol.

Mae PSPRC yn cefnogi dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â sgiliau digidol a bydd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod pobl o bob oed yn gallu datblygu hyder a sgiliau digidol. Bydd hyn yn sicrhau bod unigolion mewn sefyllfa well i fanteisio ar gyfleoedd a chynyddu'r rhagolygon ar gyfer cyflogaeth sy'n rhoi mwy o foddhad. Yn fwy penodol, bydd PSPRC yn gweithio gyda chyflogwyr i gael gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar sgiliau digidol.

Brexit

Mae Brexit yn parhau i fod yn her sylweddol o safbwynt polisi a chynllunio i lawer o sefydliadau, yn enwedig cyflogwyr ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Adroddwyd effaith barhaus Brexit ar draws nifer o sectorau blaenoriaeth y rhanbarth, gan gynnwys yr heriau a achoswyd gan golli llafur ymfudwyr, gofynion mewnforio / allforio newydd, ynghyd ag oedi a chostau uwch deunyddiau.

Nododd adroddiad ar ddisodli cronfeydd strwythurol yr UE yng Nghymru gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin fod astudiaethau blaenorol ar effaith y cyllid wedi bod yn "amhendant". Ond nododd y pwyllgor hefyd dystiolaeth ei fod wedi cael effeithiau cadarnhaol o'r cyllid. Dywedodd yr adroddiad bod sectorau unigol yng Nghymru "wedi elwa'n sylweddol" o ganlyniad i gyllid yr UE[3]

Ym mis Ebrill 2022, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai Cronfeydd Datblygu a Chymdeithasol Rhanbarthol yr UE wedi bod werth £1.404bn ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2021 a Mawrth 2025. Byddai'r arian hwn yn ychwanegol i'r derbynebau sy'n ddyledus oherwydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllid i brosiectau yn y blynyddoedd blaenorol drwy Fframwaith Ariannol Aml-flynyddol yr UE 2014-2020.

Mae Llywodraeth y DU bellach wedi cadarnhau y bydd Cymru'n derbyn £585m drwy CFfGDU. Mae hyn yn cynnwys £101m sy'n cael ei frig-dorri gan Lywodraeth y DU i gefnogi blaenoriaeth Adran Addysg Llywodraeth y DU i ddarparu rhaglen rhifedd i oedolion o'r enw Multiply. Ynghyd â'r £47m o gynllun peilot 2021-22 ar gyfer CFfGDU - y Gronfa Adnewyddu Cymunedau - bydd Cymru yn derbyn £632m mewn cronfeydd newydd yn y cyfnod, diffyg o £772m.[4]

Colli buddsoddiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop

Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru yn ceisio gwella amodau cyflogaeth, codi safonau byw a helpu pobl i ennill sgiliau a rhagolygon swyddi gwell. Yng Nghymru, mae gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop bedair Echel Flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2014-2020 ym mhob un o'r Rhaglenni. Y rhain yw:

- Echel Flaenoriaeth 1: Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy;
- Echel Flaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf;
- Echel Flaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid; a
- Echel Flaenoriaeth 4: Cymorth Technegol.

Bydd y rhan fwyaf o brosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop nawr yn parhau tan ddiwedd 2022 / dechrau 2023 ond mae'n hanfodol ein bod yn deall y rôl y mae'r prosiectau hyn wedi'i chwarae wrth gefnogi cyflogadwyedd a datblygu sgiliau ar draws y rhanbarth, yn dod â negeseuon cyffredin o werthuso ynghyd a lledaenu arfer gorau o ran modelau cyflenwi. Mae PSPRC eisoes wedi cymryd camau i ddylanwadu ar ddatblygiad rhaglenni ariannu yn y dyfodol, fel Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, tra hefyd yn archwilio'r potensial i brif-ffrydio gweithgarwch a llywio sgwrs barhaus.

3 https://lordslibrary.parliament.uk/brexit-replacing-eu-funding-in-wales
4 https://gov.wales/written-statement-loss-funding-wales-result-uk-governments-arrangements-replacement-eu-funding

Bydd PSPRC yn ceisio sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r rhaglenni ariannu Ewropeaidd presennol, a bydd gweithio drwy'r SE Wales RET, yn darparu cyfeiriad strategol parhaus, er mwyn i brosiectau ystyried tirwedd economaidd a pholisi sy'n newid, gan archwilio'r potensial ar gyfer hyblygrwydd o fewn eu cynlluniau cyflenwi. Er bod PSPRC yn ystyried addasrwydd strategol pob prosiect yn ystod eu cyfnod datblygu, mae'r ymgysylltu parhaus hwn yn allweddol.

Covid-19 (Coronafeirws)

Mae Covid-19 (coronafeirws) wedi cael effaith sylweddol ar yr economi a'r agenda sgiliau ers yr achosion cyntaf tua mis Ionawr 2020. Cyflwynodd hyn gyfres o heriau i lunwyr polisi a'r Llywodraeth ac arweiniodd at gyflwyno ystod o fesurau i gyfyngu ar yr effaith ar yr economi. Er mwyn deall yr effaith ar sgiliau yn well, cysylltodd PSPRC gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth a chasglu gwybodaeth feddal a oedd yn llywio llwybr Llywodraethau Cymru at adferiad. Mae adroddiadau wedi amlinellu effaith Covid-19 ar staffio, recriwtio, y galw am sgiliau a'r camgymhariad sgiliau, hyfforddiant mewnol a dysgu yn y gwaith.

Effeithiodd y pandemig ar yr economi ranbarthol i raddau amrywiol. I ymhelaethu, fe wnaeth Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch wynebu heriau, yn enwedig o fewn yr is-sectorau Awyrofod a Modurol. O ystyried bod y broses gynhyrchu wedi'i hatal, fe wnaeth y pandemig effeithio'n sylweddol ar y sector Creadigol hefyd yn y cyfnodau cynnar ac fe wnaeth y sectorau sy'n sail i'r economi sylfaenol, gan gynnwys lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, wynebu heriau a gafodd gyhoeddusrwydd helaeth. Yn achos Adeiladu a Thechnoleg Ddigidol a Galluogol, roedd y sefyllfa'n amrywiol: roedd rhai busnesau wedi wynebu heriau sylweddol, ac eraill wedi rhoi gwybod am aflonyddwch tymor byrrach yn unig.

I lawer o fusnesau, roedd hyfforddiant a datblygu wedi lleihau i gychwyn, yn benodol ar gyfer gweithgarwch anhanfodol, a bu newid cyffredin i ddarparu gwasanaethau ar-lein. Fodd bynnag, ailddechreuodd gwasanaethau wyneb yn wyneb yn fuan iawn er gydag ymyriadau. Mae buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant wedi'i gryfhau i lawer o fusnesau ac mae'r ddarpariaeth hyfforddiant cyfunol bellach yn gyffredin. Yn wir, mae'n ymddangos bod hyfforddiant parhaus, a dysgu yn y gwaith yn hanfodol i lwyddiant yn y tymor hwy.

Gan ganolbwyntio ar Brentisiaethau, mae wedi bod ymrwymiad cryf gan gyflogwyr i gwblhau dysgu'n llwyddiannus. Yn sicr, cyflwynwyd anawsterau ar gyfer elfennau'n seiliedig ar gymhwysedd yn gynnar yn y pandemig a wnaeth yn aml ymestyn amserlenni cwblhau. Gallai recriwtio Prentisiaethau yn y dyfodol hefyd fod yn heriol i rai sectorau, yn enwedig o fewn llwybrau traddodiadol. Roedd unigolion â sgiliau lefel isel yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar ffyrlo neu'n wynebu'r risg fwyaf o golli eu swydd. Roedd hyn yn peri pryder ac roedd yn ymddangos ei fod yn gyffredin ar draws sawl sector. Mae'n ymddangos hefyd na wnaeth Covid-19 arwain at angen newydd sylweddol i uwchsgilio; fodd bynnag, daeth y cynnydd nodedig o ran gweithio gartref â heriau bach wrth ddefnyddio technoleg rithwir.

Er na wyddys beth yw effaith lawn y feirws eto, mae tueddiadau clir wedi dechrau dod i'r amlwg. Yng nghyfnod cynnar y pandemig roedd llawer o fusnesau'n canolbwyntio ar oroesi a 'chael drwy'r storm'. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod mwy o optimistiaeth bellach ar gyfer potensial twf yn y dyfodol. Mae prinder sgiliau'n ymddangos yn gyffredin nawr, ac mae'n ymddangos bod llawer o sectorau'n cael trafferthion recriwtio'n gyson gan nad oes gan ymgeiswyr sgiliau arbenigol a phrofiad perthnasol yn aml. Rhagwelir y bydd hyn yn parhau i fod yn her sylweddol am flynyddoedd i ddod.

Costau Byw

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi dweud bod tua 9 o bob 10 (89%) o oedolion ym Mhrydain Fawr yn parhau i ddweud bod eu costau byw wedi cynyddu, sy'n hafal i tua 46 miliwn o bobl. Mae hyn yn gynnydd o tua 6 o bob 10 (62%) pan ddechreuon nhw ofyn y cwestiwn hwnnw am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2021.

Y rhesymau mwyaf cyffredin a adroddwyd gan yr oedolion hyn am eu costau byw cynyddol oedd;

CYNNYDD O RAN PRISIAU BWYD (94%)

CYNNYDD MEWN BILIAU NWY NEU DRYDAN (82%)

CYNNYDD YM MHRIS TANWYDD (77%)

Mae'r cynnydd mewn biliau ynni a thanwydd hefyd yn cael effaith enfawr ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig sy'n gweld costau'n cynyddu o filiau ynni cynyddol a chwsmeriaid yn bod yn fwy gofalus ac yn gwario llai ar eu cynhyrchion a'u gwasanaethau. Yn aml nid yw busnesau eisiau trosglwyddo'r cynnydd mewn prisiau hyn i gwsmeriaid ond nid oes ganddyn nhw ddewis neu byddant yn wynebu'r risg o golli eu busnes yn gyfan gwbl os nad ydyn nhw'n trosglwyddo'r cynnydd mewn prisiau.

Oherwydd yr argyfwng costau byw gallai fod angen i fusnesau dorri alldaliadau eraill fel 'Costau Hyfforddi' er mwyn sicrhau bod y busnes yn gallu ymdopi gyda'r cynnydd mewn biliau ynni a llai o incwm. Adroddwyd i PSPRC yn ystod pandemig Covid-19, wrth wynebu colli incwm a chostau uwch, y byddai busnesau'n aml yn defnyddio eu cyllidebau hyfforddi i dalu am gostau hanfodol gan eu galluogi i oroesi.

Mae ymyriadau nodedig gan Lywodraeth Cymru i helpu busnesau gydag uwchsgilio ac ail-hyfforddi'r gweithlu oherwydd effaith pandemig Covid-19, megis y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP) yn parhau. Gall y CDP a rhaglenni presennol fel Prentisiaethau ddarparu cefnogaeth drwy'r argyfwng costau byw presennol i fusnesau ac unigolion yn y rhanbarth i sicrhau eu bod yn gallu cael hyfforddiant i'w helpu i uwchsgilio tra'n parhau i weithio.

Buddsoddiad Rhanbarthol

Drwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd mae cryn dipyn o fuddsoddiad ac arloesedd wedi'i gynllunio a fydd yn creu cyfleoedd ar gyfer creu swyddi, twf economaidd a ffyniant cymdeithasol.

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rhaglen unigryw o gydweithio sydd wedi ymrwymo i fod yn gatalydd ar gyfer twf rhanbarthol a llwyddiant cynaliadwy. Mae'n un o brif fecanweithiau P-RC ar gyfer gweithredu ei uchelgeisiau twf a'i flaenoriaethau strategol.

Mae'r fargen yn amlinellu'r cyd-ymrwymiadau a wnaed gan ddeg awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ddatgloi £1.2bn o gyd-fuddsoddiad. Fe'i cynlluniwyd i adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth, ei sylfaen sgiliau uchel a thair prifysgol lwyddiannus a chyflymu twf economaidd a chynhyrchiant drwy gyfres o fuddsoddiadau a dargedwyd mewn sgiliau, seilwaith, prosiectau a arweinir gan arloesedd y gellir eu tyfu ar raddfa a sectorau diwydiant a busnesau â blaenoriaeth.

Dros ei oes o 20 mlynedd y canlyniadau a ddymunir o'i raglenni ymyrraeth (£734m ohonynt wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiadau Metro gyda'r £495m sy'n weddill ar gael trwy gronfa fuddsoddi ehangach) yw y bydd wedi creu 25,000 o swyddi newydd, wedi cynhyrchu £4bn ychwanegol o fuddsoddiad gan y sector preifat i'r rhanbarth a chynyddu GYC 5%.

Cronfa Her P-RC

Nod Cronfa Her Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw adeiladu cyfoeth lleol ac ysgogi twf economaidd drwy heriau ac arloesedd a lywir gan genhadaeth sy'n mynd i'r afael â heriau gwasanaeth cyhoeddus a phroblemau cymdeithasol. Mae'r Gronfa Her werth £10m yn darparu mecanwaith i ymgysylltu â chyrff sector cyhoeddus, sy'n weithgar ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, i allu nodi a datblygu heriau. Mae'n cysylltu cyrff sector cyhoeddus â sefydliadau a all gynnig datrysiadau arloesol i'r heriau hynny, gan arwain at well gwasanaethau, gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, a mwy o gynhyrchiant.

Cronfa Buddsoddi Mewn Arloesedd P-RC

Mae hyrwyddwyr y Fargen Ddinesig yn arloesi ar draws y rhanbarth a thrwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Arloesedd (CBA) mae'n anelu at gefnogi creu swyddi, uwchsgilio, cynhwysiant cymdeithasol a nodau amgylcheddol ehangach. Mae'n canolbwyntio ar ariannu busnesau arloesol a sefydledig mewn meysydd twf allweddol gan gynnwys y diwydiannau creadigol, technoleg ariannol, technoleg meddygol, seiberddiogelwch a chynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd.

Metro De Cymru

Mae adeiladu Metro De Cymru yn brosiect uchelgeisiol, gwerth miliynau o bunnau. Bydd Metro De Cymru yn rhwydwaith integredig o fysus, rheilffordd a theithio llesol (cerdded a beicio) a fydd yn gwella cysylltedd ac yn gwneud teithio cynaliadwy yn haws ar draws de Cymru.

Gorsaf Bŵer Aberddawan

Mae Bargen Ddinesig P-RC yn bwriadu datblygu ac ail-leoli Gorsaf Bŵer Aberddawan fel esiampl o gynhyrchu ynni gwyrdd, gan wneud y mwyaf o'i photensial datblygu hirdymor i yrru twf economaidd cynaliadwy a glân ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Mae gan y safle 489 erw, sy'n cynnwys yr orsaf bŵer glo sydd wedi'i datgomisiynu ar arfordir Bro Morgannwg, y

potensial i greu miloedd o swyddi.

Lled-ddargludyddion Cyfansawdd

Ochr yn ochr ag IQE, mae Bargen Ddinesig P-RC wedi sefydlu ffowndri fawr lled-ddargludyddion cyfansawdd blaengar wedi'i lleoli rhwng Casnewydd a Chaerdydd, fel angor yn y rhanbarth ar gyfer cynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd.

Mae'r prosiect wedi sicrhau buddsoddiad masnachol sylweddol mewn gweithgynhyrchu a datblygu ac wedi cefnogi datblygiad 'clwstwr' ehangach o weithgarwch lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ne Cymru, gan arwain at grynhoad o gwmnïau cysylltiedig yn y gadwyn gyflenwi.

Zip World

Nod Zip World yw gwneud dros gymunedau glo'r De yr hyn y maent wedi'i wneud dros ardaloedd y llechi yn y Gogledd a chreu anturiaethau unigryw sy'n dod â thwristiaid ac yn creu cyfleoedd ehangach i'r ardal leol i wella a thanio'r economi. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar gysyniad brand a llwyddiannus sefydledig yn y sector hamdden a thwristiaeth ac mae wedi creu cyrchfan newydd fawr i dwristiaid gyda manteision economaidd sylweddol ar gyfer ystod eang o fusnesau a chymunedau eraill.

Graddedigion Menter

Nod Cynllun Graddedigion Menter yw gwella cynhyrchiant, arloesi a thwf economaidd drwy gysylltu graddedigion â busnesau uchelgeisiol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r cynllun yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau am ddim i fusnesau oresgyn rhwystrau i recriwtio, gan gynnwys cymorth adnoddau dynol a marchnata eu rôl ledled y rhanbarth, tra bod graddedigion ar y cynllun yn cael cymryd rhan mewn cynllun graddedigion cydlynol a chwblhau cymhwyster a ariennir yn llawn.

FinTech Wales

Bydd y buddsoddiad, a gaiff ei ledaenu dros bartneriaeth bum mlynedd rhwng P-RC a FinTech Wales, yn gweld y ddau sefydliad yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gyflawni uchelgais P-RC i helpu i sefydlu Cymru fel sector technoleg ariannol blaenllaw yn y DU.

Media Cymru

Dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, mae media.cymru yn dod â 24 o sefydliadau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd at ei gilydd sy'n cynnwys partneriaid sy'n gweithio ym maes addysg, darlledu, technoleg, cynhyrchu'r cyfryngau ac arweinyddiaeth leol, i hybu twf economaidd cynhwysol, cynaliadwy ac ychwanegu £236m o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) erbyn 2026.

Porth y Gorllewin

Partneriaeth traws-ranbarthol ar gyfer de Cymru a gorllewin Lloegr yw Porth y Gorllewin. Mae'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Awdurdod Cyfun, Dinas-ranbarthau, Partneriaethau Menter Lleol a Llywodraethau (yng Nghymru a San Steffan). Nod y bartneriaeth yw dod ag ychwanegedd at strategaethau a strwythurau presennol yr ardal.

Ecosystem Hydrogen

Ardal Porth y Gorllewin fydd Ecosystem Hydrogen gyntaf y DU i arwain datblygiad ynni carbon isel er mwyn helpu i gyrraedd nodau sero net. Mae partneriaeth Porth y Gorllewin ar y cyd â Chynghrair GW4 wedi datgelu gweledigaeth newydd o ran pam fod yr ardal yn barod i sbarduno datblygiad y ffynhonnell ynni hon fel Ecosystem Hydrogen - gweithio gyda'n gilydd i rannu arbenigedd a datrysiadau.

Ynni Llanw yn Aber Afon Hafren

Bydd comisiwn annibynnol newydd yn cael ei sefydlu i ail-edrych a yw'r amser yn iawn i ddefnyddio Aber Afon Hafren i greu ynni cynaliadwy glân. Bydd gan y comisiwn gylch gwaith agored i archwilio amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys edrych ar ba dechnoleg ynni sy'n bodoli, pa feysydd fyddai'n briodol a sut y gellir lleihau effeithiau amgylcheddol. Bydd yn cynnwys amrywiaeth o arbenigwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall a oes opsiwn ymarferol nawr ar gyfer defnyddio ynni'r llanw o afon Hafren i greu ynni i'r DU.

Buddsoddi Arall

Uned Ddiwydiannol Rhyd y Blew

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £8.5 miliwn mewn adeiladu gofod diwydiannol newydd sylweddol ym Mlaenau Gwent gyda'r nod o ddenu busnesau blaenllaw i'r ardal. Bydd uned ddiwydiannol 50,000 troedfedd sgwâr yn cael ei hadeiladu yn Rhyd y Blew, yng Nglyn Ebwy, yn ardal y Cymoedd Technoleg. Bydd yr adeilad modern yn gam cyntaf uwchgynllun safle ehangach ac yn helpu i fodloni'r galw enfawr am ofod diwydiannol o'r fath yn ardal de-ddwyrain Cymru.

Canolfan Arloesi Seiberddiogelwch

Bydd Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chorff buddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a chonsortiwm o bartneriaid diwydiannol, yn gwario cyfanswm o £9.5m ar ganolfan arloesedd seiberddiogelwch – a fydd yn dod yn weithredol tua diwedd 2022 – y gobaith ywy bydd yn helpu sector seiber Cymru i fod yn arweinydd byd-eang.

Hyfforddiant ac Addysg Ôl-16

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnal ystod o ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 safon uchel, gan gynnwys colegau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnig darpariaeth sy'n cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr a dysgwyr rhanbarthol.

Mae PSPRC yn cefnogi uchelgais Llywodraethau Cymru ar gyfer system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru sy'n hawdd ei llywio i ddysgwyr ac yn cefnogi cystadleurwydd ar lwyfan byd-eang. Mae PSPRC yn deall yr egwyddor y gall addysgu a dysgu, ynghyd ag ymchwil, gynnig mantais go iawn. Bydd gan y Comisiwn arfaethedig ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) ffocws ar bum maes addysgol yn dod at ei gilydd: Dysgu Oedolion yn y Gymuned; Prentisiaethau; Addysg Bellach; Addysg Uwch a'r Chweched Dosbarth.

Addysg Bellach

Mae'r rhanbarth yn gartref i sawl coleg addysg bellach gan gynnwys Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Coleg y Cymoedd, Coleg Merthyr Tudful a Dysgu Oedolion Cymru. Gyda dros 33,000 o ddysgwyr galwedigaethol llawn amser yn astudio mewn colegau AB ledled Cymru yn 2021/22, mae gan y sector rôl hanfodol i'w chwarae i ymateb i anghenion y farchnad lafur mewn economi sy'n newid.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Covid-19 wedi golygu bod AB wedi gorfod bod yn ymatebol a gwydn ac mae llawer o feysydd y sector yn parhau i gael eu heffeithio gan y pandemig. Bydd y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau hwn yn parhau i ddarparu llyw ar gyfer AB a bydd yn dylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau cwricwlwm y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd ag anghenion yr economi ranbarthol ac y gellir mynd i'r afael â bylchau sgiliau presennol ac yn y dyfodol, nid yn unig i gynorthwyo ag adferiad ond hefyd i sbarduno twf economaidd.

Mae Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC, a grwpiau clwstwr cysylltiedig, yn cynnwys cynrychiolwyr AB enwebedig. Mae'r dull hwn yn darparu mecanwaith i PSPRC barhau i ryngwynebu â cholegau AB rhanbarthol, a rhwydweithiau holl bwysig fel Fforymau Penaethiaid / Is-Benaethiaid AB.

Addysg Uwch (AU)

Mae pedair prifysgol yn gweithredu ar draws y rhanbarth: Mae mwy na 75,000 o fyfyrwyr yn mynychu Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a'r Brifysgol Agored. Yn aml mae gan y prifysgolion hyn gysylltiadau gwych â diwydiannau yn y rhanbarth a dewisodd llawer o raddedigion aros yng Nghymru wrth symud ymlaen â'u gyrfaoedd.

Mae prifysgolion ar draws y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau AB a thrwy ddarpariaeth masnachfraint i fynd i'r afael â gofynion y diwydiant. Mae dulliau cydweithredol hefyd yn bodoli rhwng AU ac ysgolion, darparwyr dysgu yn y gwaith ac addysg i oedolion. Fel enghraifft, a thrwy First Campus, mae prifysgolion wedi rhoi cymorth i ysgolion a cholegau lleol wrth ddatblygu'r cwricwla, cyfleoedd i ddysgwyr ac wrth gefnogi mapio ac arbenigedd i ddatblygu prentisiaethau. Hefyd, mae Cynllun Graddedigion Venture Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i lywio gan sefydliadau AU a grwpiau sy'n cynrychioli busnesau. Yma, darperir cefnogaeth i gyflogwyr drwy raglen recriwtio a datblygu graddedigion unigryw.

Wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (PTGau) hefyd yn rhoi mynediad i arbenigedd academaidd i fusnesau sydd am dyfu, arloesi, neu wella eu perfformiad economaidd. Mae PTGau yn gosod graddedigion o

safon uchel, a elwir yn Gydymaith, mewn sefydliad i gyflawni prosiect o bwysigrwydd strategol i'r busnesau. Cefnogir y graddedig ar y cyd gan y sefydliad AU ac mae'r busnes a'r prosiectau'n canolbwyntio ar wreiddio gwybodaeth a gallu newydd o fewn y sefydliad i fanteisio ar botensial twf.

Mae Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Prifddinas-ranbarth Caerdydd a grwpiau clwstwr cysylltiedig, yn cynnwys cynrychiolwyr AU enwebedig i sicrhau deialog addas at y diben rhwng cyflogwyr a darparwyr addysg uwch.

Dysgu yn y gwaith (DG)

Mae PSPRC yn credu y dylid ystyried bod dysgu yn y gwaith galwedigaethol yn hafal i lwybrau academaidd os ydym am wireddu gweledigaeth rhanbarth medrus, sy'n ymateb i anghenion economaidd. Mae CCRSP hefyd yn cefnogi uchelgais Llywodraethau Cymru i greu 125,000 o brentisiaethau dros y tymor Senedd hwn.

Gall dysgu yn y gwaith gynyddu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy yn y gweithle a chynyddu cyfleoedd bywyd. Mae prentisiaethau yng Nghymru yn swyddi sy'n cynnwys cymwysterau cydnabyddedig a sgiliau penodol i swyddi tra bod Hyfforddeiaethau yn rhaglen ddysgu ar gyfer pobl ifanc sy'n darparu sgiliau i gael gwaith neu symud ymlaen i ddysgu pellach. Mae'r ddwy raglen yn elfen allweddol o system sgiliau Cymru sy'n cefnogi'r ethos dysgu gydol oes.

Cynrychiolir y sector dysgu yn y gwaith hefyd ar Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau P-RC, a grwpiau clwstwr cysylltiedig. Trwy ei pherthynas â Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC), mae PSPRC yn ymgysylltu â'r sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â darparu dysgu yn y gweithle sy'n amrywio o ddarparwyr hyfforddiant arbenigol bach i sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol

Addysg Gyrfaoedd, Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau (AGCAG)

Mae Addysg Gyrfaoedd, Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau (AGCAG) yn hanfodol wrth gefnogi unigolion i wneud penderfyniadau addysgol a chyflogaeth addas, ac i leihau effaith bosibl dewisiadau anwybodus ac aflwyddiannus. Mae gan AGCAG y pŵer i newid cwrs bywyd unigolion a chefnogi datblygiad gyrfa llwyddiannus. Mae AGCAG yn cwmpasu sbectrwm eang o ddarpariaeth o wybodaeth am gyrsiau a galwedigaethau hyd at esboniadau manwl am lwybrau gyrfa a chyfleoedd.

Mae AGCAG yn rhan bwysig o'r Cwricwlwm i Gymru newydd sydd wedi'i ad-drefnu o amgylch y pedwar pwrpas:

- dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr creadigol a llawn menter sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion Cymru a'r byd sy'n egwyddorol a gwybodus
- unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn boddhad fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas



Datblygwyd chwe maes dysgu a phrofiad (MDaPh) hefyd gan gynnwys y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg gyda phrofiad gwaith (GPhG) sy'n cynnwys ar draws y chwech fel thema drawsbynciol ar gyfer pobl ifanc 3-16 oed. O dan y cwricwlwm newydd, mae gan ysgolion fwy o allu i ddylunio a gweithredu eu haddysgu eu hunain gyda dogfennau canllaw sy'n cefnogi datblygu'r cwricwla sy'n galluogi dysgwyr i gael profiadau gwaith a gyrfaoedd, gan ddatblygu gwybodaeth am ehangder ac ystod y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaeth gwybodaeth gyrfaoedd, cyngor a chanllawiau pob oed, annibynnol a diduedd yng Nghymru. Mae eu cynghorwyr gyrfaoedd sydd â chymwysterau proffesiynol yn helpu unigolion i fod yn fwy effeithiol wrth reoli a chynllunio eu datblygiad gyrfaol. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid wrth gefnogi ysgolion i ymgysylltu â chyflogwyr i wella dealltwriaeth o'r byd gwaith. Caiff hyn ei gyflawni drwy ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau a gweminarau mawr neu drwy'r Gyfnewidfa Addysg Busnes sydd ar gael i ysgolion ledled Cymru. Mae gweledigaeth ddiweddaraf Dyfodol Disgleiriach Gyrfa Cymru (2021-2026) yn nodi'r gweithgareddau allweddol y bydd Gyrfa Cymru yn eu cyflawni i gefnogi pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i greu dyfodol ddisgleiriach.

O ran GPhG, bydd disgwyl i ysgolion a lleoliadau ddilyn canllawiau statudol ar gyfer GPhG wrth ddatblygu eu cwricwlwm. I gefnogi'r broses, gweithiodd Gyrfa Cymru a'r Sefydliad Datblygu Gyrfaoedd (SDG) â'r rhanddeiliaid i gynhyrchu'r Pecyn Cymorth GPhG fel adnodd i gefnogi pob athro, uwch dimau arwain a'r rhai sy'n cefnogi pobl ifanc i wireddu a gwreiddio GPhG yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'r adnodd yn cynnwys pecyn cymorth a blwch offer sy'n darparu gwybodaeth a fydd yn cefnogi datblygu, gweithredu, a gwerthuso darpariaeth addysg gyrfaoedd.

Mae PSPRC yn credu bod ymgysylltu â chyflogwyr yn ffactor hanfodol wrth ysbrydoli unigolion a'u hysbysu o'r cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael ar draws y rhanbarth. Bydd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr hefyd yn eu helpu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a phrinder. Mae gan PSPRC rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd a gall weithio ar y cyd â rhanddeiliaid fel Gyrfa Cymru ac Addewid Caerdydd wrth alluogi pobl ifanc i gael rhagor o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael a sut i gyflawni uchelgeisiau gyrfaol. Gall PSPRC hefyd helpu i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o sectorau blaenoriaeth economaidd y rhanbarth a thrwy wybodaeth am y farchnad lafur.

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

***'Mae gwybodaeth safon uchel am y farchnad lafur (GFL) yn hanfodol ar gyfer economi iach, gan ganiatáu i fusnesau, unigolion a darparwyr hyfforddiant wneud penderfyniadau gwybodus am fuddsoddiad, hyfforddiant a gyrfaoedd.'*[5]**

Mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn rhoi dealltwriaeth fanwl i ni o strwythur yr economi ranbarthol, fodd bynnag, dim ond un ffynhonnell wybodaeth rydyn ni'n ei defnyddio i helpu i lywio ein gweithgarwch a'r argymhellion a wnawn i Lywodraeth Cymru. Dim ond rhan o'r darlun y gall Gwybodaeth am y Farchnad Lafur ei baentio ac mae iddo gyfyngiadau, rhaid hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddio ymchwil pwrpasol ychwanegol. Mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yr ydym wedi ei chyrchu a'r rhannu gyda'n rhanddeiliaid wedi gwella a chynyddu ers lansio ein cynllun diwethaf a'n nod yw adeiladu ar hyn yn y dyfodol i helpu i gefnogi datblygu a darparu rhaglenni cyflogaeth a sgiliau presennol ac yn y dyfodol.

Er mwyn deall anghenion sgiliau yn y rhanbarth yn llawn a gwneud argymhellion gwybodus, rydym yn defnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, gwybodaeth anecdotaidd a gafwyd o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymchwil.



Demograffeg Rhanbarthol

Poblogaeth

Amcangyfrifir bod gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd boblogaeth o 1.52 miliwn, sef 49% o boblogaeth Cymru. O'r boblogaeth hon, mae 49.2% yn ddynion a 50.8% yn fenywod, gyda thua 1.2 miliwn yn 16 oed a throsodd, ac amcangyfrifir bod 976,153 o oedran gweithio (16-64)[6].

GYC

Mae gwerth ychwanegol crynswth (GYC) yn fesur o'r cynnydd yng ngwerth yr economi o ganlyniad i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae'r GYC yn fesur pwysig iawn, oherwydd fe'i defnyddir i bennu cynnyrch domestig gros (CDG), sy'n arwydd o iechyd economi genedlaethol a thwf economaidd. Cyfanswm GYC yng Nghymru yn 2020 oedd £66.6 biliwn, sydd i lawr 3.3% ers 2019. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 3.0% i'r DU (ac eithrio rhanbarth-ychwanegol), dros yr un cyfnod. Y gostyngiad i Gymru ac i'r DU oedd y mwyaf ers dechrau cadw cofnodion ac mae modd eu priodoli i effaith pandemig Covid-19.

5 Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y DU
6 Poblogaeth breswyl arferol fesul rhyw ac awdurdod lleol (StatsCymru, 2021)

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynhyrchu 51.7% o gyfanswm GYC yng Nghymru. Er bod gan Gaerdydd (33,540) GYC y pen sy'n rhagori ar gyfartaledd y DU (28,894). Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent yw'r tri awdurdod yn y rhanbarth gyda'r GYC(B) isaf y pen[7] .



Cyflogaeth

Mae tua 713,600 o boblogaeth oedran gweithio'r rhanbarth mewn cyflogaeth, gyda thua 74% yn gweithio'n llawn amser, 25% mewn cyflogaeth rhan amser ac ychydig o dan 9% yn hunangyflogedig[8]. Y gyfradd gyflogaeth o ran canran yn y rhanbarth yw 73.4% sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 73.1%.

Y sector sydd â'r lefel uchaf o gyflogaeth yn y rhanbarth yw'r Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, sy'n cyflogi 99,285 o bobl; dilynir hyn yn agos gan y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cyflogi 98,680 o bobl. Mae sectorau eraill yn y rhanbarth sy'n cyflogi lefelau uchel o bobl yn cynnwys Manwerthu, Addysg, y Weinyddiaeth Gyhoeddus, Lletygarwch, Ynni a'r Amgylchedd a Gweithgynhyrchu.

7 GYC y pen yn ôl ardal blwyddyn (StatsCymru, 2021)
8 Pobl a Gwaith / Cyflogaeth (StatsCymru, 2021)



Diweithdra

Rhwng 2018 a 2022, mae'r gyfradd ddiweithdra ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi gostwng o 5.3% (39,900 o bobl) i 3.9% (29,700 o bobl). Yr ardal awdurdod lleol â'r gyfradd uchaf ar hyn o bryd yw Casnewydd (4.9%), a'r isaf yw Sir Fynwy (2.9%).

Mae cyfradd yr anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (19.9%) yn agos iawn at y gyfradd ar gyfer Cymru yn gyffredinol (19.8%), ac mae'n is na'r gyfradd ar gyfer De-orllewin Cymru (21.3%) ond yn uwch na chyfraddau Gogledd Cymru (18.8%) a Chanolbarth Cymru (16.8%).

Gostyngodd y gyfradd anweithgarwch economaidd (eto ac eithrio myfyrwyr) yn y rhanbarth yn gyson o 2005 i 2014, ac ers hynny mae wedi aros yn weddol lefel o fewn yr ystod 19.4% i 21.0%. Mae gostyngiad bach o 21.0% yn 2016 i 19.4% yn 2020 wedi'i ddilyn gan goynnydd bach a allai fod oherwydd y pandemig.

O ardaloedd yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth, Tor-faen sydd â'r gyfradd uchaf (25.3%) a Bro Morgannwg (14.1%) sydd â'r gyfradd isaf.



Lefelau Cymhwyster

Dros y degawd diwethaf, mae lefelau cymwysterau'r boblogaeth oedran gweithio yn ein rhanbarth wedi cynyddu gyda dros 39.1% o bobl â chymwysterau Lefel 4 neu uwch erbyn hyn, sydd i fyny o 36.5% yn 2017. Mae nifer y bobl heb gymwysterau wedi gostwng o 8.6% yn 2017 i ddim ond 7.5% erbyn hyn ac o gymharu â rhanbarthau eraill yng Nghymru, mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd nifer uwch o'r boblogaeth sydd wedi cymhwyso i FfCC Lefel 7-8 a niferoedd sylweddol is heb gymwysterau.

Mae canran y boblogaeth sydd â chymwysterau lefel 4 yn amrywio'n sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r canrannau uchaf o dros 47% yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy a'r canrannau isaf o lai na 33% ym Merthyr Tudful, Tor-faen a Blaenau Gwent. Fodd bynnag, Tor-faen a Phen-y-bont sydd â'r ganran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio yn y rhanbarth gyda Phrentisiaethau Masnach.[9]

Yn ôl StatsCymru, mae nifer y Prentisiaethau fydd yn dechrau yn y rhanbarth ar draws yr holl raglenni wedi gostwng yn raddol ers 2017/18 o tua 15,000 i 10,500 ar 2020/21. Fodd bynnag, mae data 2020/21 yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn ddiweddar yn nifer yr unigolion sy'n dechrau Prentisiaethau Uwch (Lefel 4+) o fewn y mwyafrif o'r rhanbarthau. Mae'r data diweddaraf hefyd yn dangos bod sectorau fel Adeiladu ac Iechyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dechrau Prentisiaethau Sylfaen (Lefel 2).



Sefydliadau Busnes

Mae tua 116,000 o fentrau busnes ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef tua 44% o holl fentrau busnes Cymru. Mae dros 97% o fentrau busnes yn y rhanbarth yn rhai micro (0-9) neu fach (10-49) ac maent yn cyflogi tua 44% o'r gweithlu.[10] Mae'r amrywiaeth o fentrau busnes o fewn awdurdodau yn amrywio, mae gan Sir Fynwy nifer anghymesur o fentrau micro a bach, tua 58% o'r holl fentrau, o gymharu â'r awdurdodau eraill fel Casnewydd, gyda 37% o fentrau micro a bach. Mae busnesau bach yn cyfrif am 39.4% o drosiant a 62.6% o gyflogaeth yng Nghymru.

Mae anghenion dydd i ddydd BBaChau yn debygol o fod yn wahanol i gwmnïau mawr, ac mae eu gallu a'u capasiti i ymateb i heriau macro-economaidd, fel Brexit, Covid-19 a digidoleiddio hefyd

9 Cymwysterau NVQ yn ôl ALl 2017-21 (SYG)
10 Mentrau yn ôl maint band ardal blwyddyn (StatsCymru, 2021)

yn debygol o fod yn wahanol. Mae busnesau bach hefyd yn anoddach eu cyrraedd ac, yn wahanol i gwmnïau mawr a allai fod â'u his-adrannau arbenigol eu hunain i adrodd ar faterion prinder sgiliau, mae'r rheolwyr yn cyflawni llawer o rolau o fewn y busnesau. Felly gall heriau recriwtio a phrinder sgiliau amharu'n sylweddol ar fusnes bach neu ganolig.

Mae PSPRC wedi parhau i ymgysylltu â'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FfBB), Siambr Fasnach De Cymru a CBI i sicrhau ei bod yn deall anghenion sgiliau busnesau bach a chanolig yn well, gan ganolbwyntio ar sefydlu a yw'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol "yn diwallu anghenion BBaChau a'r hunangyflogedig, yn enwedig yng nghyd-destun darpariaeth leol, ansawdd a pherthnasedd."

Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n parhau'n broblem ledled Cymru - er ein bod wedi gweld symudiad positif tuag at gyflog cyfartal rhwng y rhywiau. Ugain mlynedd yn ôl, roedd y bwlch mewn enillion wythnosol canolrifol gros rhwng dynion a menywod tua 20%. Mae'r data dros dro ar gyfer 2021 yn awgrymu mai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau presennol yw 12.4% yn seiliedig ar gyflog canolrifol yr awr.[11]

Dylid nodi hefyd bod gan rai o'n sectorau blaenoriaeth GYC uchel anghydbwysedd sylweddol o ran y rhywiau, mae gan Technoleg Ddigidol, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, ac Adeiladu i gyd anghydbwysedd amlwg rhwng y rhywiau y mae'r sectorau'n dymuno mynd i'r afael â nhw.



Poblogaeth sy'n Heneiddio

Yng Nghymru, mae'r demograffig canolog yn rhagweld, mewn 20 mlynedd (erbyn 2038), y bydd 1 o bob 4 o'r boblogaeth, dros 65 oed. Disgwylir hefyd y bydd y boblogaeth dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9.3% o'r boblogaeth yn 2018 i 13.7% yn 2038 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019). Mae'n werth nodi, er gwaethaf y rhagfynegiadau hyn, bod gwelliannau mewn disgwyliad oes wedi arafu ers tua 2011 ac nad oes llawer o newid wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[12]

Mae tua 36% o weithlu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dros 50 oed, sy'n is o'i gymharu â rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi hefyd bod y pandemig wedi gweld cynnydd mewn anweithgarwch i'r rhai dros 50 oed am resymau salwch a/neu ymddeoliad cynnar, ac, i'r rhai dros 65 oed yn arbennig, mae mwy o fenywod na dynion wedi gadael y farchnad lafur. Nid ydym yn siŵr o hyd a yw "Covid hir" yn ffactor sy'n cyfrannu, ond gallai hyn fod yn broblem gynyddol.

11 Gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn ôl blwyddyn (StatsCymru, 2021)
12 Cymru o blaid pobl hŷn - ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio (Llyw.Cymru)

Data EMSI

Fel y soniwyd eisoes, mae gwybodaeth draddodiadol am y farchnad lafur yn wych er mwyn deall strwythur economi a chael darlun llawn o'r tueddiadau mawr mewn swyddi a chyflogau, fodd bynnag, mae diffyg manylion ac nid yw'n cael ei chasglu'n aml iawn. Mae GFL ar ei chryfaf pan gaiff ei defnyddio ar y cyd â dadansoddeg hysbysebion swydd y gellir ei ddarparu trwy offer fel EMSI, sy'n tynnu data o ffynonellau lluosog i roi'r darlun mwyaf cyflawn a chyfoes o'r farchnad lafur.

Hysbysebion Swydd

Gall dadansoddeg hysbysebion swydd helpu i fesur y galw am dalent mewn rhanbarth penodol. Mae'n fwy gronynnog na gwybodaeth draddodiadol am y farchnad lafur, gan roi manylion am y farchnad lafur (e.e. sgiliau penodol y gofynnir amdanynt gan gyflogwyr) na all GFL ei wneud. Un o gryfderdau eraill dadansoddeg hysbysebion swydd yw nad oes unrhyw oedi o ran amser, gan fod hysbysebion swydd yn fyw; felly fe'i gelwir hefyd weithiau yn "ddata marchnad lafur amser real".

O fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cyrhaeddodd nifer yr hysbysebion swydd unigryw uchafbwynt yn ystod mis Tachwedd 2021 gyda 18,139, â dwyster hysbysebu o 3:1, sy'n golygu, ar gyfartaledd, mai dim ond 1 hysbyseb swydd unigryw oedd ar gyfer bob 3 hysbyseb. Mae'r data'n dangos rhai amrywiannau sylweddol o fis i fis, gyda hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â newidiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyfyngiadau Covid-19, ynghyd ag effaith Brexit a cholli llafur ymfudwyr o fewn y gweithlu rhanbarthol.



Ffynhonnell: Emsi Burning Glass, 2022

Tueddiadau Cyflog

Y cyflog canolrifol a hysbysebwyd mewn hysbysebion swydd yn y rhanbarth dros y 3 blynedd diwethaf yw £28k. Yn dilyn gostyngiad sydyn o fis Ebrill 2020 lle cyrhaeddodd uchafbwynt o £33.5k, gwelwyd cynnydd yn gyffredinol yn y cyflog a hysbysebwyd ers mis Tachwedd 2021 i werth cyfredol o £29k. Mae nifer o sectorau wedi nodi cynnydd sylweddol mewn cyflogau ar gyfer galwedigaethau penodol, yn dilyn pandemig Covid-19 a Gadael yr UE, fel Cogyddion o fewn Lletygarwch a Chodwyr o fewn Technoleg Ariannol, sy'n cefnogi'r duedd a welwyd yn nata EMSI dros y 12 mis diwethaf.

Fodd bynnag, wrth adolygu'r data arsylwi cyflogau a hysbysebwyd mae'n awgrymu bod tua 24% o'r swyddi yn cynnig cyflog a hysbysebwyd o £21k neu lai, sy'n sylweddol is na'r canolrif ar gyfer y rhanbarth. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan tua 16% o'r swyddi, lle mae'r cyflog yn cael ei hysbysebu, sy'n cynnig £45k neu uwch.

Mae'r siart isod yn dangos dosbarthiad cyflogau a hysbysebwyd yn y rhanbarth rhwng Medi 2021 ac Awst 2022. Mae hyn yn seiliedig ar 88,827 o arsylwadau cyflog a hysbysebwyd a oedd yn cynnwys cyflog (52% o'r cyfanswm o 171,080 o hysbysebion).



Ffynhonnell: Emsi Burning Glass, 2022



Ffynhonnell: Emsi Burning Glass, 2022

Y Prif Alwedigaethau a Hysbysebwyd

Mae'r prif alwedigaethau a hysbysebwyd gan Dosbarthiadau Galwedigaeth Safonol (DGS) rhwng Awst 2019 ac Awst 2022 wedi'u nodi yn y tabl isod. Nyrsys a Gweithwyr Gofal / Gofalwyr Cartref yw'r ddau brif alwedigaeth yn y rhanbarth yn gyson, ac mae'n annhebygol y bydd hynny'n syndod o ystyried bod y cyfnod amser hwn yn cyd-fynd â phandemig Covid-19. Fodd bynnag, mae'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi adrodd heriau sylweddol o ran recriwtio a phrinder sgiliau, a allai gael ei effeithio ymhellach yn y dyfodol gan y gofyniad am fwy o'r rolau hyn yng Nghymru.

Galwedigaeth (DGS)	Hysbysiadau unigryw (Awst 2022)	Hysbysiadau unigryw (Awst 2019)	% newid mewn hysbysiadau unigryw 2019-2022
Nyrsys	529	416	27.2%
Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref	466	342	36.3%
Galwedigaethau gweinyddol eraill nas dosbarthwyd mewn unrhyw le arall	392	209	87.6%
Galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid nas dosbarthwyd yn unrhyw le arall	373	248	50.4%
Galwedigaethau sy'n Gysylltiedig â Gwerthu nas dosbarthwyd yn unrhyw le arall	339	246	37.8%
Rhaglenwyr a Datblygwyr Meddalwedd Proffesiynol	289	228	26.8%
Cynorthwywyr Addysgu	282	122	131.1%
Cynorthwywyr Cegin ac Arlwyo	231	198	16.7%
Galwedigaethau Storio Elfennol	202	92	119.6%
Rheolwyr a Pherchnogion mewn Gwasanaethau Eraill nas dosbarthwyd yn unrhyw le arall	200	120	66.7%
Glanhawyr a Gweithwyr Domestig	198	101	96.0%
Cynorthwywyr Gwerthu a Manwerthu	193	91	112.1%
Adnoddau Dynol a Swyddogion Cysylltiadau Diwydiannol	158	110	43.6%
Dadansoddwyr Busnes TG, Penseiri a Dylunwyr Systemau	155	94	64.9%
Technegwyr Peirianneg	155	132	17.4%
Gyrwyr Faniau	150	92	63.0%
Derbynyddion	131	70	87.1%
Cyfarwyddwyr Marchnata a Gwerthu	129	64	101.6%
Cogyddion	129	99	30.3%
Technegwyr Gwyddoniaeth, Peirianneg a Chynhyrchu nas dosbarthwyd yn unrhyw le arall	122	121	0.8%

Mae'r tabl isod yn dangos y deg galwedigaeth gyda'r cynnydd mwyaf o ran cyfanswm yr hysbysebion swyddi, ym mis Awst 2022 o'i gymharu ag Awst 2019.

Galwedigaeth (DGS)	Newid o ran cyfanswm lefel hysbysebion swyddi 2019-2022	% newid o ran cyfanswm lefel hysbysebion swyddi 2019-2022
Galwedigaethau Storio Elfennol	621	339.3%
Cynorthwywyr Gwerthu a Manwerthu	311	195.6%
Cynorthwywyr Addysgu	408	148.9%
Derbynyddion	186	139.8%
Gweithwyr Cymdeithasol	152	132.2%
Cynorthwywyr Nyrsio	262	120.2%
Gweithwyr Proffesiynol Addysgu Addysg Uwchradd	107	117.6%
Galwedigaethau Gweinyddol Eraill nas dosbarthwyd mewn unrhyw le arall	451	114.2%
Adnoddau Dynol a Swyddogion Cysylltiadau Diwydiannol	199	96.6%
Gyrwyr Faniau	173	86.9%

Ffynhonnell: Emsi Burning Glass

Sgiliau Galw Uchel

Y pum prif sgil cyffredin a nodwyd amlaf mewn hysbysebion swyddi rhwng Awst 2019 ac Awst 2022 oedd; Cyfathrebu, Rheoli, Gwasanaeth Cwsmeriaid, Gwerthu a'r Gymraeg. Mae'r siart isod hefyd yn dangos amlder y sgiliau hynny mewn proffiliau gweithlu yn erbyn yr amlder y maent yn cael eu nodi mewn hysbysebion swyddi, sy'n rhoi cipolwg o gyflenwad a galw sgiliau perthnasol. Mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu bod yna brinder sylweddol o ran sgiliau Cyfathrebu ac Iaith Gymraeg yng ngweithlu'r rhanbarth ar hyn o bryd.



Y pum prif sgil arbenigol a nodwyd amlaf mewn hysbysebion swyddi rhwng Awst 2019 ac Awst 2022 oedd Cyllid, Archwilio, Marchnata, Nyrsio a Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Mae'r siart isod hefyd yn dangos amlder y sgiliau hynny mewn proffiliau gweithlu yn erbyn yr amlder y maent yn cael eu nodi mewn hysbysebion swyddi, sy'n rhoi cipolwg o gyflenwad a galw sgiliau perthnasol. Mae'r gymhariaeth hon yn awgrymu bod yna brinder sylweddol o ran sgiliau Nyrsio a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yng ngweithlu'r rhanbarth ar hyn o bryd.



Arolwg Sgiliau

Lansiodd PSPRC eu Harolwg Sgiliau ym mis Ebrill 2022 ac maent wedi defnyddio'r ymatebion gan fusnesau sy'n gweithredu o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i helpu i lywio'r cynllun hwn. Mae nifer yr arolygon a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn y rhanbarth wedi mwy na dyblu o'r nifer a dderbyniwyd yn 2019, sy'n gadarnhaol, fodd bynnag mae adborth cyffredinol wedi awgrymu bod rhywfaint o 'flinder arolwg' yn dilyn pandemig Covid-19, gan ostwng y gyfradd ymateb efallai.

Casglwyd yr ymatebion ar gyfer yr Arolwg Sgiliau rhwng Ebrill a Medi 2022, gyda chyfanswm o 392 o ymatebion llawn wedi eu derbyn. Cafodd yr Arolwg Sgiliau ei ddosbarthu i holl randdeiliaid PSPRC ac roedd modd ei gyrchu trwy ddolen ar wefan PSPRC, a gafodd ei hyrwyddo ar draws nifer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Casglodd aelodau Tîm PSPRC ymatebion hefyd ar gopïau printiedig o'r arolwg mewn digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr, er bod nifer y digwyddiadau 'wyneb yn wyneb' yn ystod y cyfnod hwn yn gyfyngedig o'i gymharu â 2019.

Mae trawstoriad o'r cwestiynau o Arolwg Sgiliau PSPRC 2020 ac ymatebion wedi'u nodi isod;

Pa sector mae prif weithgaredd eich busnes / sefydliad yn cyd-fynd â hi orau?



Beth yw'r prif heriau sy'n eich wynebu fel busnes / sefydliad?



Ydych chi'n dioddef heriau sgiliau ar hyn o bryd?



Meddwl am y dyfodol – beth ydych chi'n ei ragweld yw'r heriau sgiliau i'r dyfodol i'ch busnes / sefydliad?



Ydych chi a'ch gweithlu'n profi rhwystrau o ran hyfforddiant?



Pa rwystrau o ran hyfforddiant ydych chi neu eich gweithlu'n eu profi?



Ydych chi'n cyflogi prentisiaid?



Pam nad ydych chi'n cyflogi prentisiaid?



Ymchwil

Mae PSPRC yn defnyddio ymchwil a gomisiynwyd neu a gynhyrchwyd yn rheolaidd gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys CITB, TUC Cymru, Screen Skills, Cyngor y Gweithlu Addysg, Gofal Cymdeithasol Cymru a Diwydiant Cymru ymysg eraill. Ers lansio ein Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau diwethaf 2019-22, mae PSPRC hefyd wedi comisiynu a chynhyrchu nifer o adroddiadau ymchwil, lle mae diffyg gwybodaeth wedi'i nodi ar gyfer meysydd polisi strategol sy'n arwyddocaol i'r rhanbarth a Llywodraeth Cymru.

Rhestrir enghreifftiau o'r ymchwil a'r canfyddiadau yr ydym wedi'u defnyddio isod;

- Adroddiad Crynodeb Covid-19 PSPRC
- Marchnad lafur yfory – swyddi, sgiliau a'r newid i economi werdd...
- Ymchwil i Wybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Rhagolwg Diwydiant Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu (RhSA) CITB 2022-26
- Gwaith Sgrin 2020 - Sgiliau ac arloesedd y dyfodol ar gyfer y Sector Sgrin ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd
- CGA - Adroddiad Arolwg y Gweithlu Addysg Cenedlaethol 2021
- TUC Cymru - Adferiad gwyrdd a thrawsnewidiad cyfiawn

Sectorau Blaenoriaeth

Yn dilyn dadansoddiad sectoraidd o'r economi ranbarthol, mae Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-2025 yn canolbwyntio ar chwe sector allweddol a all, gyda rhywfaint o ymyrraeth, yn ein barn ni, gael yr effaith fwyaf ar hybu cynhyrchiant, cyflymu twf economaidd a gwella ffyniant cymdeithasol.

Er mwyn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu a hyrwyddo perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda chyflogwyr, mae PSPRC yn parhau i gefnogi chwe grŵp sector diwydiant tra bod Technoleg Ariannol wedi'i nodi fel sector newydd. Bydd Technoleg Ddigidol yn torri ar draws y chwech. Mae'r grwpiau sector yn alinio'n uniongyrchol â'r rhai sydd wedi cael eu hystyried yn flaenoriaeth i'r rhanbarth ac mae'r pencampwr sector perthnasol yn gyrru pob grŵp:

- Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch
- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
- Adeiladau
- Creadigol
- Technoleg Ariannol
- Economi Sylfaenol Ddynol

DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH



LLED-DDARGLUDYDDION CYFANSAWDD

ADEILADAU

CREADIGOL

TECHNOLEG ARIANNOL

ECONOMI SYLFAENOL DDYNOL

30

Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Mae gan Ddeunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch (DGU) draddodiad hir yn Ne-ddwyrain Cymru ac erbyn hyn mae nifer o gyflogwyr uwch-dechnoleg cryf wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Mae'r sector yn defnyddio prosesau a thechnoleg newydd arloesol i greu cynhyrchion â gwerth ychwanegol, er enghraifft yn y meysydd awyrofod, moduro a fferyllol, ac mae'n cynnwys is-sectorau eraill megis cynhyrchu bwyd. Fel gyda rhannau eraill o'r economi ranbarthol, cyflogwyr bach i ganolig sy'n dominyddu'r sector. Dylid nodi hefyd fod DGU, er ei fod yn sector pwysig, yn cynnwys nifer o sectorau sy'n bwysig ynddynt eu hunain, gan gynnwys Peirianneg Trafnidiaeth.

Problemau a Heriau Sgiliau

Mae ein hymgysylltiad â'r sector wedi dangos, er ei bod yn ymddangos bod y diwydiant yn 'dal i fyny' yn weddol dda yn yr amgylchedd presennol, ei fod yn wynebu rhai heriau real iawn yng ngoleuni Brexit, Covid-19 a'r argyfwng ynni sy'n datblygu.

Yn ôl Arolwg Sgiliau PSPRC, cyfeiriodd tua 73% o'r ymatebwyr o'r sector DGU at brinder sgiliau fel her fawr. Mae hyn yn awgrymu nad yw cyfran gymharol fawr o'r gweithlu presennol yn meddu ar y sgiliau i ddiwallu'r anghenion presennol.

O ran y prinder sgiliau presennol ymhlith cyflogwyr, arweinwyr a rheolwyr, nodir datrys problemau a sgiliau technoleg ddigidol fel her reolaidd. Wrth edrych tuag at y dyfodol, mae cyflogwyr yn rhagweld y bydd sgiliau peirianneg arbenigol, sgiliau gweithgynhyrchu clyfar, sgiliau technoleg ddigidol a sgiliau ynni adnewyddadwy yn fwy heriol yn y dyfodol.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan SEMTA[13] wedi dangos mai Peirianneg Fecanyddol yw'r sgil y mae'r galw mwyaf amdani ymhlith cyflogwyr DGU Cymru. Fodd bynnag, Rheoli Prosiectau a Datblygu Prosiectau sy'n ail a thrydydd.

Wrth adolygu dadansoddeg galwedigaethau trwy EMSI, yr offeryn gwybodaeth marchnad lafur a all fesur y galw am dalent ar draws y rhanbarth, mae'r galwedigaethau mwyaf cyffredin yn y rhanbarth yn cynnwys rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu, gweithredwyr prosesau, a pheirianwyr cynhyrchu a chynnal a chadw. Mae ymgysylltiad â'r sector hefyd yn dangos bod rolau'n dod yn fwyfwy amlweddog gyda gweithwyr yn gorfod cyfuno rolau traddodiadol â chyfrifoldebau newydd fel rheoli prosiectau.

Mae'r sector wedi profi problem hirdymor o ran canfyddiadau'r diwydiant, ac mae rhanddeiliaid yn aml yn dweud bod y sector yn cael ei ystyried yn "fudr" yn hytrach na'r diwydiant technolegol-ddatblygedig, glân yr ydyw mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod y broblem hon yn deillio o wahanol ffynonellau gan gynnwys camsyniadau rhieni, cyngor gyrfaoedd gwael, a chysylltiadau gwael rhwng ysgolion a cholegau mewn grwpiau oedran sy'n pontio i addysg bellach. Mae yna hefyd broblemau hysbys gyda recriwtio menywod i'r sector y gellir eu priodoli'n rhannol i bynciau STEM yn cael eu hystyried ar gam fel rhai sy'n cael eu dominyddu gan ddynion.

13 https://eal.org.uk/support/document-library/eal-sectors/414-ssd2673-skills-snapshot-wales-v6/file?adlt=strict

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. HYRWYDDO PRENTISIAETHAU A GWEITHIO I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU'N ADDAS I'R DIBEN AC YN UNOL Â'R SAFONAU PRENTISIAETHAU YN LLOEGR.

2. CEFNOGI GWEITHREDIAD ADOLYGIAD SECTOR CYMWYSTERAU CYMRU AR GYFER PEIRIANNEG, GWEITHGYNHYRCHU UWCH AC YNNI A SICRHAU'R CYFLEOEDD GORAU POSIBL I SICRHAU BOD Y DATBLYGIADAU'N DIWALLU ANGHENION Y DIWYDIANT.

3. CEFNOGI DARPARWYR HYFFORDDIANT I RECRIWTIO A HYFFORDDI ASESWYR AR GYFER PRENTISIAETHAU LEFEL 4

4. GWEITHIO GYDA LLYWODRAETH CYMRU I SICRHAU BOD CEFNOGAETH A ARIENNIR AR GYFER HYFFORDDIANT WEDI'I HALINIO AG ANGHENION Y SECTOR GAN GYNNWYS HYFFORDDIANT PWRPASOL AR GYFER GWEITHREDU TECHNOLEG NEWYDD FEL AWTOMEIDDIO, ROBOTEG A SGILIAU DIGIDOL CYSYLLTIEDIG.

5. MANTEISIO AR GYFLEOEDD SY'N CODI DRWY AGENDA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU, A'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN.

6. PARHAU I FOD YN YMWYBODOL O EFFAITH COVID/BREXIT A GWEITHIO I SICRHAU BOD MODD DEFNYDDIO SGILIAU GWEITHWYR SYDD WEDI'U DADLEOLI (O BOSIBL DRWY GAU GWEITHFEYDD) MEWN IS-SECTORAU SY'N WYNEBU HERIAU RECRIWTIO.

7. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD A HYRWYDDO'R SECTOR FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.

8. MYND I'R AFAEL Â MATERION SY'N YMWNEUD AG ANGHYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU A PHARHAU I GYNYDDU NIFER Y MERCHED SY'N DOD I MEWN I'R FARCHNAD LAFUR.

9. GWELLA CYNNWYS HYFFORDDIANT ATHRAWON SY'N CANOLBWYNTIO AR STEM A GWEITHIO I GYFLWYNO LLEOLIADAU PROFIAD GWAITH ADDAS AT Y DIBEN MEWN DIWYDIANT I SBARDUNO CYDRADDOLDEB.

Lled-ddargludyddion Cyfansawdd



Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yw'r dechnoleg sy'n sail i lawer o gynhyrchion a meddalwedd uwch-dechnoleg heddiw, gan gynnwys ffonau clyfar, synwyryddion, a chyfathrebu ffibr optig. Maent yn gweithredu ar gyflymder uwch na'r lled-ddargludyddion traddodiadol sy'n seiliedig ar silicon ac maent yn cynnig nodweddion ffotonig a ddefnyddir mewn amrywiaeth eang o dechnolegau synwyryddion a chyfathrebu optig. Maent yn elfen hanfodol o dechnolegau newydd, o gysylltedd 5G i awtomeiddio diwydiannol a cherbydau di-yrrwr.

Mae'r sector yn flaenoriaeth i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach, sy'n gartref i gyflogwyr sector mawr sy'n gweithio ar hyd coridor yr M4. CSconnected yw clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd a'r brand cyfunol ar gyfer nifer cynyddol o gwmnïau lled-ddargludyddion uwch gan gynnwys IQE, KLA, Microchip, MicroLink Devices UK, nexperia a Rockley Photonics. Dylid nodi bod y gadwyn gyflenwi sy'n bwydo'r sector hwn a'r diwydiannau cysylltiedig yn ymestyn llawer pellach. I gyd, mae dros £500 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd gyda Phrifysgol Caerdydd, y Llywodraeth yn ogystal â diwydiant lleol i gyd yn buddsoddi[14].

Mae Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn sector hynod benodol. Ni ellir cael data o'r manylder hwn o ffynonellau cyhoeddus. Mae ein hymdrechion blaenorol i ddefnyddio offer GFL masnachol i gael data ar gyfer y sector hwn hefyd wedi profi'n aflwyddiannus. Felly, rydym yn ddibynnol ar ymgysylltu ansoddol â'r sector, ymchwil desg, a darnau penodol o ymchwil y mae'r sector wedi'i wneud ei hun. Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Ysgol Busnes Caerdydd drwy Uned Ymchwil Economi Cymru, yn 2020, roedd sefydliadau sy'n ffurfio rhan o aelodaeth CSconnected yn cyfrif am oddeutu 1,400 o swyddi, ac roedd aelodau'r sector preifat yn cyfrif am oddeutu £440 miliwn o werthiant blynyddol (yn bennaf i farchnadoedd y tu allan i'r UE). Dangosodd dadansoddiad pellach fod aelodau CSconnected yn cefnogi'n uniongyrchol tua £121m o GYC Cymru[15]

Problemau a Heriau Sgiliau

Mae recriwtiaid i'r sector yn aml yn symud ymlaen drwy lwybrau cymhwyster peirianneg mwy generig, ac mae angen datblygu darpariaeth addysg a hyfforddiant ymhellach yn benodol ar gyfer y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd. Yn hyn o beth, gallai Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) a ddatblygwyd yn ddiweddar ddarparu'r blociau adeiladu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Yn fwy diweddar, mae Prifysgol De Cymru (PDC) wedi datblygu Gradd-brentisiaeth benodol ar gyfer technolegau lled-ddargludyddion sy'n cael ei threialu'n llwyddiannus drwy Nexperia. Mae hyn yn caniatáu cymysgedd o recriwtiaid newydd a mynediad ar sail sgiliau a chymwysterau wedi'u hennill drwy gyflawniadau arwyddocaol.

Cynhaliwyd Arolwg Sgiliau Cymru i'r sector a rhyddhawyd canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2018 gan UK Electronics Skills Foundation[16] . Mae PSPRC o'r farn mai hon yw'r ffynhonnell fwyaf diffiniol ar gyfer anghenion sgiliau'r sector o ystyried ei dull hynod dargedig ac arbenigedd y rhai sy'n ei chyflawni. Mae gan y sector, i grynhoi, brinder sgiliau cymharol fawr. Bydd gofynion ehangu ac amnewid yn golygu cynyddu'r galw am lafur yn enwedig i fynd i'r afael â phrinder peirianwyr technegol a meddalwedd.

14 https://blogs.cardiff.ac.uk/university-executive-board/2018/02/20/worlds-first-compound-semiconductor-cluster-in-south-wales/
15 (https://csconnected.com/media/vdsn3fgo/csconnected-annual-report-2021.pdf)
16 https://www.ukesf.org/wp-content/uploads/2018/12/Survey-Report-final.pdf

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. PARHAU I DDATBLYGU CYMWYSTERAU ADDAS AT Y DIBEN MEWN PARTNERIAETH Â RHANDDEILIAID ALLWEDDOL I HELPU I FYND I'R AFAEL Â PHRINDER SGILIAU.

2. GWEITHIO I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU (GAN GYNNWYS GRADD-BRENTISIAETHAU) YN ADLEWYRCHU ANGHENION Y SECTOR A CHEFNOGI PROSESAU DARPARU.

3. HYRWYDDO PERTHYNAS STRATEGOL RHWNG Y SECTOR A DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH (GAN GYNNWYS FFERYLLOL, MODUROL A HEDFAN) I GEFNOGI NEWID GYRFA A/NEU DDATBLYGU.

4. CEFNOGI'R GWAITH O DDARPARU GWEITHGAREDDAU DPP CS CONNECTED A CHYNLLUN GWAITH CYSYLLTIEDIG.

5. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD I HYRWYDDO'R SECTOR FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.

6. CEFNOGI DATBLYGIAD GWEITHLU CYNHWYSOL A CHYNYDDU NIFER Y MERCHED SY'N DOD I MEWN I'R FARCHNAD LAFUR.

7. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH I YMCHWILIO I FYLCHAU A PHRINDER SGILIAU A DATBLYGU DULLIAU ARLOESOL A CHYDWEITHREDOL I FYND I'R AFAEL Â HERIAU A NODWYD.

8. CYDWEITHIO Â LLYWODRAETH CYMRU A RHANDDEILIAID I SICRHAU BOD CEFNOGAETH ARIANNOL AR GYFER HYFFORDDIANT YN ALINIO AG ANGHENION Y SECTOR.



Adeiladu

Mae'r sector adeiladu yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni economi fywiog ac amgylchedd o ansawdd. Mae'r swyddi adeiladu yn amrywio o rai traddodiadol 'ar y safle' i swyddi mwy proffesiynol sy'n seiliedig ar wasanaethau megis cynllunwyr, penseiri a syrfëwyr. Adroddwyd bod tua dwy ran o dair o'r gweithlu'n cael eu cyflogi fel crefftwyr a gweithredwyr medrus gyda thraean arall yn cael eu cyflogi mewn rolau rheoli, proffesiynol a swyddfa.

Mae CITB[17] yn nodi bod y gweithlu yng Nghymru ar ddiwedd 2020 yn cynnwys 111,500 o weithwyr a rhagwelir y bydd yn codi i 116,300 erbyn 2026. Drwy'r rhagolygon 5-mlynedd (2022-2026), mae CITB hefyd yn nodi bod cyfanswm allbwn y sector yn 2021 yn £5.5bn gydag amcangyfrif o £5.7bn ar gyfer 2022. Yn 2021, llwyddodd yr allbwn adeiladu yng Nghymru i adfer yn gyflym yn dilyn y cyfnod clo Covid yn 2020 ac amcangyfrifir ei fod wedi tyfu ychydig dros 20%, sy'n uwch na lefel twf y DU.

Y sectorau allweddol sy'n gyrru twf yn y dyfodol yw tai preifat newydd, eiddo cyhoeddus ac eithrio tai, a thrwsio a chynnal a chadw. Mae prosiectau mawr yn Ne-ddwyrain Cymru yn cynnwys adran Dowlais Top i Hirwaun yr A465, sydd werth £500m, ac mae Dŵr Cymru hefyd yn bwriadu buddsoddi £360m y flwyddyn mewn gwariant cyfalaf hyd at 2025. Mae CITB hefyd yn awgrymu bod y gofyniad recriwtio blynyddol yng Nghymru o 2.1% y flwyddyn ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 2.0%. Mae hyn yn cynnwys galw amnewid ac yn golygu y bydd angen 11,500 o weithwyr ychwanegol o 2022 i 2026.

Problemau a Heriau Sgiliau

Gall y sector fod yn gyfnodol ei natur, a gall sgiliau a ddymunir gael eu gyrru gan y math o brosiect sydd ar y gweill. Mae monitro'r biblinell hon o brosiectau adeiladu yn y dyfodol felly yn hanfodol. Mae'n ymddangos bod y galw mwyaf am Fricwyr, Crefftau Trydanol a Phlymio, a Gwresogi, Awyru ac Aerdymheru (HVAC).

Mae gan y sector broblemau o ran mabwysiadu a defnyddio technoleg newydd a allai newid galw sgiliau'r sector. Mae rhai technolegau, er enghraifft, Dronau, Realiti Estynedig / Realiti Rhithwir ac awtomeiddio wedi cael eu mabwysiadu gan rai ond nid oes consensws ynghylch pa dechnolegau fydd yn cael eu defnyddio'n helaeth yn y dyfodol. Mae rolau fel Rheolwr Dylunio, Cydlynydd a Rheolwr M&E, a Chydlynydd a Rheolwr BIM hefyd yn rolau sy'n rhy newydd i gael eu Dosbarthiadau Galwedigaeth Safonol (DGS) eu hunain sy'n gallu creu darlun cynyddol gamarweiniol o'r galw.

Yn dilyn Adolygiad Sector Cymwysterau Cymru, 'Adeiladu'r Dyfodol' (Chwefror 2018), mae wyth cymhwyster newydd wedi'u cyflwyno o 2021. Maent yn cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch newydd mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cymhwyster sylfaen mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cymwysterau prentisiaethau a chymwysterau dilyniant. Mae cymwysterau newydd yn mynd i'r afael â phryderon cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant, a dylent ateb dyheadau'r dyfodol. Gallai'r trawsnewidiad hwn drawsnewid y sector adeiladu yng Nghymru.

Mae'r daith i sero net hefyd yn gyfle i dyfu a thrawsnewid y diwydiant. Gall gwaith adeiladu ddylanwadu'n sylweddol ar allyriadau'r DU ac mae CITB[18] yn amcangyfrif y bydd angen 50,000 o ôl-ffitiadau yng Nghymru bob blwyddyn o 2020 i gyrraedd targedau sero net. Bydd angen creu 12,000 o swyddi newydd hefyd mewn effeithlonrwydd ynni erbyn diwedd y 2020au. I ymhelaethu ymhellach, erbyn 2028, bydd angen cynnydd sylweddol yng Nghymru mewn ystod o rolau adeiladu, gan gynnwys rheolwyr prosiect, plymwyr, masnachwyr HVAC, llafurwyr, arbenigwyr amlen adeiladu a chydgysylltwyr a dylunwyr ôl-ffitio.

17 wales-lmi-final.pdf (citb.co.uk)
18 b06414_net_zero_report_wales_v7.pdf (citb.co.uk)

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. CEFNOGI GWEITHREDIAD CYMWYSTERAU NEWYDD A GWEITHIO I SICRHAU BOD RHANDDEILIAID YN YMWYBODOL O'R DIRWEDD NEWIDIOL.
2. DATBLYGU LLWYBRAU DILYNIANT CLIR AR GYFER DYSGWYR MEWN PERTHYNAS AG ADEILADU.
3. ARCHWILIO'R POTENSIAL I DDATBLYGU RHAGLENNI DYLUNIO DIGIDOL AC ADEILADU YMHELLACH.
4. ARCHWILIO CYFLEOEDD I DDATBLYGU CYMWYSTERAU I GEFNOGI GWAITH ODDI AR Y SAFLE AC ÔL-FFITIO.
5. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD A HYRWYDDO'R SECTOR FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG.
6. CEFNOGI'R GWAITH O DDATBLYGU A DARPARU HYFFORDDIANT I FYND I'R AFAEL AG AGENDÂU CYNALIADWYEDD A DATGARBONEIDDIO.
7. MYND I'R AFAEL Â MATERION SY'N YMWNEUD AG ANGHYDBWYSEDD RHWNG Y RHYWIAU A CHYNYDDU NIFER Y MENYWOD SY'N DOD I MEWN I'R SECTOR.
8. PARHAU I FOD YN YMWYBODOL O EFFAITH BREXIT A CHYFLWYNO MESURAU I LEIHAU EFFAITH ALLFUDO AR Y FARCHNAD LAFUR.
9. HYRWYDDO'R POSIBILIAD O GYFLWYNO PIBLINELL STRATEGOL O BROSIECTAU SEILWAITH I GYNNWYS ASESIADAU EFFAITH SGILIAU.
10. DYLANWADU AR DDOSBARTHIADAU GALWEDIGAETHOL SAFONOL I GYDNABOD LLWYBRAU NEWYDD A RHAI SY'N DOD I'R AMLWG.

Creadigol

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei chydnabod fel un o ganolfannau creadigol mwyaf y DU y tu allan i Lundain. Gyda mwy na 1300 o gwmnïau cyfryngau (y mae 600 ohonynt mewn Ffilm a Theledu) yn cyfrannu tua £360 miliwn GYC, mae'r sector wedi dod yn sbardun ar gyfer yr economi ranbarthol. Wedi'i nodweddu gan gyfran uchel o unig fasnachwyr a gweithwyr llawrydd, mae'r rhai a gyflogir yn y sector Creadigol yn cynnwys tua 7% o weithlu'r rhanbarth ac yn cynrychioli un o'r crynodiadau cyflogaeth sectoraidd uchaf yn y DU. Ers 2016, mae 34% o'r holl swyddi newydd yn sector cyfryngau'r DU wedi'u lleoli yn P-RC.[19] Awgrymodd adroddiad diweddar i Gymru gan 'Clwstwr' fod 80% o weithgareddau'r diwydiannau creadigol wedi'u lleoli yn Ne Cymru, gyda Chaerdydd yn rhan greiddiol ohono.

Mae'r rhanbarth wedi dod yn ardal lle mae cwmnïau a thalent greadigol yn ffynnu – yn ganolfan gydnabyddedig ar gyfer cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau ac yn gartref i fusnesau sydd wedi ennill gwobrau BAFTA, Emmy ac RTS sy'n gwthio'r ffiniau creadigol yn y wlad hon ac yn fyd-eang, gyda chysylltiadau masnach rhyngwladol sy'n datblygu'n gyflym a mentrau arloesol ar gyfer hyfforddi'r gweithlu.

Yn allweddol i dwf y sector creadigol yn y rhanbarth - ac yn fwy penodol cynhyrchu Ffilm a Theledu - mae capasiti stiwdio o'r radd flaenaf y BBC, Bad Wolf, Dragon a Seren Studios i enwi ond rhai. Mae'r rhanbarth bellach yn un o'r cyrchfannau byd-eang pennaf ar gyfer cynhyrchu Ffilm a Theledu; ac ar un adeg yn 2020 hwn oedd yr hyb cynhyrchu sgrin prysuraf yn Ewrop. Yn ogystal â Ffilm a Theledu, mae gan y rhanbarth gryfderau mewn cyfryngau darlledu, cynnwys digidol a cherddoriaeth leol, ac mae'n ymfalchïo mewn sector gemau bywiog a datblygol.

Mae'r sector hefyd yn dod â manteision i rannau eraill o'r economi ranbarthol; mae gwasanaethau cymorth a ddarperir gan gwmnïau arlwyo, logisteg a chyfleusterau yn rhan hanfodol o lwyddiant y rhanbarth.

Problemau a Heriau Sgiliau

Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Cymru Greadigol (2022-2025), a lansiwyd yn ddiweddar, yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion sgiliau'r sector Creadigol ledled Cymru, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf a manteisio ar y potensial i'r rhanbarthau barhau i fod yn lleoedd ffyniannus a chreadigol i wneud busnes. Mae ein hymgysylltiad â'r sector wedi datgelu amrywiaeth eang o brinder sgiliau ar draws pob llwyfan gyrfa, gan gynnwys ar gyfer rolau fel cyfarwyddwyr, awduron, criw VFX/SFX, criw cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, sinematograffwyr a golygyddion sgript i enwi dim ond rhai.

Mae'r sector Creadigol yn ddigidol iawn ac mae prinder sgiliau sylweddol wedi'i nodi ar gyfer rolau technegol mewn VFX, Gemau ac Animeiddio. Mae technolegau newydd yn trawsnewid llawer o ddiwydiannau o fewn y sector, gyda chynyrchiadau rhithwir a realiti rhithwir estynedig yn gofyn am sgiliau newydd o fewn y gweithlu. Mae sgiliau trosglwyddadwy yn cael eu defnyddio gan y sector drwy raddedigion celfyddydau gweledol, codwyr a datblygwyr meddalwedd, fodd bynnag cydnabyddir bod angen ymchwil pellach i fapio'r sgiliau hyn.

Nododd Arolwg Sgiliau PSPRC 2022 fod tua 67% o ymatebwyr o'r sector creadigol wedi nodi prinder sgiliau fel eu prif her, gyda recriwtio yn dynn ar ei sodlau. Awgrymodd yr ymatebwyr mai'r prinderau sgiliau mwyaf cyffredin a brofir gan gyflogwyr yn y sector yw creadigol, marchnata, technoleg newydd, Cymraeg a rheoli prosiectau. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am heriau sgiliau posibl yn y dyfodol, nodwyd technoleg ddigidol gan 88%, sy'n cysylltu ag ymddangosiad technolegau newydd a gofynion am sgiliau digidol gwell yng ngweithlu creadigol y rhanbarth.

19 https://media.nesta.org.uk/documents/creative_nation-2018.pdf

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. PARHAU I DDATBLYGU STRATEGAETH SGILIAU GYDLYNOL AR GYFER Y SECTOR CREADIGOL, GAN SICRHAU YMGYSYLLTIAD Â CHYNYRCHIADAU LLAI I NODI EU HERIAU SGILIAU, A PHARHAU'N YMWYBODOL HEFYD O'R TWF YN Y DIWYDIANNAU GÊMIO A CHERDDORIAETH

2. ARCHWILIO POTENSIAL RHAGLEN CYSGODI GWAITH SY'N BENODOL I'R SECTOR CREADIGOL LEDLED CYMRU I SICRHAU DULL CYDGYSYLLTIEDIG MEWN PERTHYNAS Â PHROFIAD GWAITH A LLEOLIADAU HYFFORDDEION, A FYDD YN CEFNOGI GWELL HYGYRCHEDD I'R SECTOR AR GYFER NEWYDD-DDYFODIAID

3. EHANGU YSTOD A HYBLYGRWYDD CYFNODAU DYSGU BYR A HYFFORDDIANT DPP SYDD AR GAEL I'R GWEITHLU CREADIGOL DRWY FENTRAU FEL Y RHAGLEN CYFRIF DYSGU PERSONOL (CDP), CYNLLUN PRENTISIAETHAU A RENNIR A DATBLYGU ACADEMÏAU SGILIAU

4. CYNYDDU'R DEFNYDD O WYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR I NODI BYLCHAU SGILIAU, PRINDER SGILIAU A THUEDDIADAU RECRIWTIO AR DRAWS Y SECTOR CREADIGOL, A LLYWIO'R GWAITH O DDARPARU DARPARIAETH HYFFORDDIANT ÔL-16

5. DATBLYGU CYSYLLTIADAU CRYFACH GYDA CYMRU GREADIGOL I WELLA YMATEBOLRWYDD Y SECTOR A'I DDIOGELU AT Y DYFODOL MEWN PERTHYNAS Â'R POSIBILRWYDD Y BYDD CYNYRCHIADAU TELEDU A FFILM BLAENLLAW'N FFILMIO YN Y RHANBARTH

6. YMCHWILIO YMHELLACH I'R ANGHENION SGILIAU A'R GEFNOGAETH SYDD EI HANGEN AR GYFER CYNYRCHIADAU RHITHWIR AC INTEGREIDDIO SGILIAU O'R DIWYDIANT GÊMIO I GEFNOGI DIWYDIANNAU ERAILL YN Y SECTOR CREADIGOL

7. GWELLA CYDWEITHIO O FEWN Y SECTOR DRWY AMSERLEN GYDLYNOL A DDIWEDDERIR YN RHEOLAIDD O GYNYRCHIADAU SY'N CAEL EU FFILMIO AR DRAWS Y RHANBARTH AC SYDD AR Y GWEILL, I GYNLLUNIO AR GYFER BYLCHAU SGILIAU POSIBL A PHRINDER LLAFUR H.Y CRIW CYNHYRCHU

8. MAPIO SGILIAU TROSGLWYDDADWY GWEITHLU CREADIGOL Y RHANBARTH I SICRHAU CYNALIADWYEDD GYRFAOEDD O FEWN Y SECTOR A GOSTYNGIAD YN Y DALENT SY'N CAEL EI CHOLLI O'R SECTOR NEU I RANBARTHAU ERAILL

Technoleg Ariannol

Mae 'Technoleg Ariannol' yn cyfuno technoleg a chyllid i newid y ffordd draddodiadol y mae gwasanaethau ariannol yn cael eu rhedeg. Mae Technoleg Ariannol yn newid y ffordd y mae cwmnïau'n gweithredu ac yn trawsnewid y ffordd rydym yn trosglwyddo, benthyg, diogelu, a rheoli ein harian. Y DU yw un o brif ganolfannau ariannol y byd, ac mae hefyd yn ganolfan Technoleg Ariannol flaenllaw, gyda gweithgarwch Technoleg Ariannol cynyddol ar draws y sector ariannol. Mae busnesau bach newydd, ac arloesedd o fewn cwmnïau gwasanaethau ariannol mawr sy'n bodoli eisoes, yn creu swyddi ac yn denu buddsoddiad. Mae ymchwil i'r DU yn awgrymu bod y sector bellach wedi tyfu o'i wreiddiau tarfol yn ddiwydiant a gynhyrchodd £6.6bn mewn refeniw yn 2015 gan gyflogi 61,000 o bobl[20] .

Cymru sydd â'r economi ddigidol sy'n tyfu gyflymaf y tu allan i Lundain, ac mae twf y sector ariannol a phroffesiynol yng Nghymru wedi arwain at ddiwydiant Technoleg Ariannol ffyniannus. Ar draws y rhanbarth, mae cwmnïau fel Admiral ymhlith cyflogwyr mwyaf y rhanbarth. Mae'r sîn Technoleg Ariannol Gymreig bellach yn un o'r rhai mwyaf actif yn y DU diolch i'w chronfa dalent arloesol a'i chyfleoedd buddsoddi cynyddol. Mae ecosystem dechnoleg ffyniannus Cymru gyda'i chadwyn gyflenwi gynyddol a phrifysgolion entrepreneuraidd yn darparu sylfaen gadarn i Dechnoleg Ariannol ffynnu.

Gyda chanolfannau Technoleg Ariannol Cymru wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, mae bron i 40,000 o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant Technoleg Ariannol yng Nghymru. Mae'r sector technoleg werth tua £8.5bn i economi Cymru, ac mae'n parhau i dyfu gyda gwasanaethau ariannol a phroffesiynol dan ei adain. Mae yna gymuned fywiog yn sîn dechnoleg Cymru, sy'n caniatáu i gwmnïau newydd, buddsoddwyr a chwmnïau mwy o faint gyfarfod a rhannu syniadau drwy gyflymyddion a deoryddion yn ogystal â digwyddiadau rhwydweithio a gweithleoedd hyblyg. At hynny, mae Cymru'n gartref i'r radd israddedig gyntaf mewn technoleg ariannol.

Problemau a Heriau Sgiliau

Mae'r sector, i grynhoi, yn profi amrywiaeth o fylchau a phrinder sgiliau. Hefyd, mae cwmnïau Technoleg Ariannol yn aml yn mynnu set sgiliau esblygol i barhau'n gystadleuol a chadw i fyny gyda datblygiadau technolegol. Felly, mae piblinell o dalent yn yr ardal ddaearyddol gywir yn hanfodol. Ynghyd â sgiliau meddal, mae sgiliau technegol gan gynnwys bloc-gadwyn, arbenigedd cyfriflyfrau gwasgaredig, seiberddiogelwch, rhaglennu, dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i gyd yn sgiliau y mae galw mawr amdanynt o fewn Technoleg Ariannol. Mae'r galw mawr am y sgiliau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r tueddiadau cynyddol mewn technoleg ddigidol a galluogol sy'n dangos y cysylltiad clir rhwng y sgiliau y mae galw amdanynt a'r tueddiadau technoleg ddigidol sy'n ategu ei gilydd.

Mae Adolygiad Kalifa o Dechnoleg Ariannol y DU[21] yn pwysleisio arwyddocâd sgiliau ar gyfer llwyddiant busnes. Mae'r adolygiad wedi nodi cynllun pum pwynt o argymhellion i ddarparu a chyflawni gweledigaeth gref gyda sgiliau'n ffocws mawr. Mae'r adolygiad yn cyfeirio at y gronfa gyfoethog o dalent Technoleg Ariannol yn y DU, a gefnogir gan system brifysgol o'r radd flaenaf, ac mae'n amlygu cynigion sy'n alinio'n helaeth â'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd gan fusnesau Technoleg Ariannol y rhanbarth, a thrwy gydweithio â FinTech Wales, sef:

- Ailhyfforddi ac uwchsgilio oedolion i gefnogi Technoleg Ariannol y DU drwy sicrhau mynediad at gyrsiau byr gan ddarparwyr addysg o ansawdd uchel am gost isel
- Creu ffrwd fisa newydd i wella mynediad at Dalent Fyd-eang ar gyfer tyfu Technoleg Ariannol
- Adeiladu piblinell o dalent Technoleg Ariannol trwy gefnogi tyfiant i gynnig lleoliadau gwaith sefydledig i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch a Kickstarters

20 UK_FinTech_-_On_the_cutting_edge_-_Full_Report.pdf (publishing.service.gov.uk)
21 The Kalifa Review of UK FinTech - GOV.UK (www.gov.uk)

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. GWELLA PIBLINELLAU SGILIAU A THALENT AC ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU MEWN PERTHYNAS AG ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD I HYRWYDDO'R SECTOR FEL GYRFA REALISTIG.

2. ARCHWILIO DATBLYGIAD POSIBL LLEOLIADAU PROFIAD GWAITH O ANSAWDD MEWN PARTNERIAETH Â CHYFLOGWYR A RHANDDEILIAID ALLWEDDOL.

3. DATBLYGU YMHELLACH DDARPARIAETH ACADEMÏAU A BŴT-CAMP A'I HALINIO AG ANGHENION Y SECTOR TECHNOLEG ARIANNOL.

4. GWEITHIO I SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU'N ADLEWYRCHU ANGHENION Y SECTOR AC ARCHWILIO CYFLEOEDD YMHELLACH DRWY BRENTISIAETHAU A RENNIR A GRADD-BRENTISIAETHAU.

5. COFLEIDIO CYFLEOEDD AR GYFER CYSTADLAETHAU SGILIAU ADDYSG BELLACH AC ARCHWILIO YMGYSYLLTIAD POSIBL FEL RHAN O AGENDA WORLD SKILLS UK.

6. GWEITHIO GYDA SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH RHANBARTHOL I DDATBLYGU DARPARIAETH ADDAS AT Y DIBEN A'I HALINIO'N WELL AG ANGHENION CYFLOGWYR TECHNOLEG ARIANNOL.

7. CYDWEITHIO Â LLYWODRAETH CYMRU I SICRHAU BOD CEFNOGAETH ARIANNOL AR GYFER HYFFORDDIANT YN ALINIO AG ANGHENION Y SECTOR.

8. MANTEISIO AR GYFLEOEDD SY'N CODI DRWY AGENDA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU, A'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (CFFG).

Economi Sylfaenol Ddynol: Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys

Mae'r economi sylfaenol wedi'i hadeiladu ar weithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd pob dydd, waeth beth fo statws cymdeithasol defnyddwyr. Fel y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, rydym yn diffinio'r rhain ymhellach fel y gwasanaethau a ddarperir o fewn y sectorau Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Brys, sy'n cael eu darparu'n gyffredinol gan gymysgedd o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Yn 2019, roedd y niferoedd wedi'u cyflogi yn y sector Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Amddiffyn, Addysg ac Iechyd, sef y categori mwyaf priodol a ddefnyddir mewn ffynonellau data cyhoeddus, wedi cynyddu i 216,100 ar draws y rhanbarth. Yn ôl data EMSI, o 2021 roedd 155,836 o swyddi'n benodol yn y sectorau Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r swyddi mwyaf cyffredin oedd Gweithwyr Gofal a Gofalwyr Cartref (11.9%), Nyrsys (10.1%), Cynorthwywyr Nyrsio (5.1%), Gweithwyr Addysgu Proffesiynol Addysg Gynradd a Meithrin (4.6%) a Gweithwyr Addysgu Proffesiynol Addysg Uwchradd (4.2%).

Problemau a Heriau Sgiliau

Ymatebodd yr economi sylfaenol yn gyflym i'r heriau sgiliau o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 i alluogi parhad gwasanaethau hanfodol. O fewn Addysg, darparwyd hyfforddiant ar gyfer athrawon a staff dysgu yn y gwaith ar gyfer darparu dosbarthiadau'n effeithiol drwy blatfformau rhithwir / ar-lein ac mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gwelwyd proses sylweddol o uwchsgilio'r gweithlu ar gyfer adsefydlu a rheoli heintiau. Fodd bynnag, mae toriadau i'r gyllideb o fewn y sector cyhoeddus ac arbedion effeithlonrwydd yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant gweithlu yn y dyfodol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau.

Erys yr her o 'wahaniaethu galwedigaethol' yn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn arbennig, lle mae menywod yn cael eu gorgynrychioli ac yn 'sownd' mewn gwaith cyflog isel neu ran-amser. Mae hwn hefyd yn gyfrannwr hysbys i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru, ac o bosibl yn gysylltiedig â'r canfyddiad negyddol o'r sector. Mae'r sectorau'n awyddus i godi eu proffil i gystadlu â sectorau twf uchel am sylw, buddsoddiad a thalent yn y dyfodol.

Mae ein hymgysylltiad â'r sectorau hyn wedi nodi nifer o brinderau sgiliau / llafur ar gyfer rolau fel Nyrsys, gweithwyr Gofal Cymdeithasol, gweithwyr Gofal Plant a Chwarae a Thiwtoriaid / staff Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae galw sylweddol hefyd am sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu Addysg cyfan.

Nododd Arolwg Sgiliau PSPRC 2022 fod y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r sectorau Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol a Chyhoeddus wedi nodi recriwtio, prinder sgiliau a chadw staff fel eu prif heriau. Awgrymodd dros 20% nad yw newydd-ddyfodiaid i'w gweithlu yn 'barod i weithio', gyda diffyg sgiliau wedi'i nodi fel y prif reswm. Y tair prif her sgiliau ar gyfer y dyfodol a nodwyd ar gyfer y sectorau hyn oedd Technoleg Ddigidol, y Gymraeg ac Ynni Adnewyddadwy.

Yn gadarnhaol, cadarnhaodd dros 58% o'r ymatebwyr eu bod yn cyflogi prentisiaid, gyda bron pob un yn teimlo y byddai eu sector yn elwa o'r modelau darparu Prentisiaethau a Rennir a Gradd-brentisiaethau. Nodwyd 'fframweithiau prentisiaethau'n methu â diwallu anghenion busnes' fel y prif reswm dros beidio â chyflogi prentisiaid.

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. PARHAU I DDATBLYGU CAPASITI AR DRAWS DARPARWYR HYFFORDDIANT ÔL-16 I FODLONI GOFYNION ASESU A SICRWYDD ANSAWDD NEWYDD AR GYFER FFRAMWEITHIAU PRENTISIAETHAU O FEWN IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT AC ARCHWILIO CYFLEOEDD I ADDYSGWYR WEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYFLOGWYR I GYD-DDARPARU DARPARIAETH ARBENIGOL

2. CODI PROFFIL PRENTISIAETHAU A CHYFLEOEDD LLEOLIAD GWAITH Y SECTOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT A GWELLA'R GWAITH O HYRWYDDO'R SECTORAU HYN FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG GYDA FFOCWS PENODOL AR DDENU NEWYDD-DDYFODIAID DRWY YMGYRCHOEDD WEDI'U TARGEDU AT BRINDER SGILIAU HYSBYS

3. PARHAU I GEFNOGI MYNEDIAD AT GYLLID PRENTISIAETHAU POB-OEDRAN AR GYFER Y SECTOR ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL, GAN GANOLBWYNTIO'N BENODOL AR ANNOG POBL IFANC A'R RHAI O GRWPIAU HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL I YMGYMRYD Â PHRENTISIAETHAU

4. DATBLYGU RHAGLENNI PRENTISIAETHAU NEWYDD LLE CEIR TYSTIOLAETH O'R GALW, MEGIS GRADD-BRENTISIAETHAU A PHRENTISIAETHAU LEFEL UWCH I SICRHAU BOD LLWYBRAU ANGENRHEIDIOL I MEWN I'R SECTOR ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL

5. HYRWYDDO'R SECTOR ADDYSG FEL OPSIWN GYRFA DENIADOL I SICRHAU NEWID CADARNHAOL A CHYNNYDD YN NIFER YR YMARFERWYR ADDYSG AR Y GOFRESTR, GAN GANOLBWYNTIO AR RECRIWTIO POBL O GRWPIAU HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL YN Y GWEITHLU PRESENNOL

6. GWELLA SYMUDOLRWYDD A NATUR DROSGLWYDDADWY CYMWYSTERAU A CHREDYDAU RHWNG SEFYDLIADAU ADDYSGOL, GAN SICRHAU BOD DYSGU A CHYFLAWNIADAU BLAENOROL YN CAEL EU CYDNABOD

7. CODI YMWYBYDDIAETH O'R DULLIAU GWEITHREDU ARLOESOL MEWN PERTHYNAS Â CHYFNODAU DYSGU BYR A DPP AR GYFER GWEITHLU'R ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL GYDAG YMGYRCHOEDD WEDI'U TARGEDU AC ASTUDIAETHAU ACHOS SY'N HYRWYDDO LLWYBRAU 'ANHRADDODIADOL' I'R SECTOR

8. ADEILADU AR DDULLIAU GWEITHREDU SYDD NEWYDD EU DATBLYGU O RAN ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD SY'N MYND I'R AFAEL Â CHANFYDDIADAU O'R SECTOR A PHARHAU I HYRWYDDO'R ECONOMI DDYNOL SYLFAENOL FEL OPSIWN GYRFA REALISTIG

9. YMGYSYLLTU AG ADOLYGIADAU CYMWYSTERAU CYMRU O GYMWYSTERAU PRESENNOL A RHAI SY'N DOD I'R AMLWG ER MWYN SICRHAU BOD CYMWYSTERAU'N DIWALLU ANGHENION Y DIWYDIANT

10. CEFNOGI'R GALW CYNYDDOL AM SGILIAU IAITH GYMRAEG AR DRAWS Y GWEITHLU ADDYSG

Economi Sylfaenol Ddynol: Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth

Mae'r sectorau Twristiaeth a Lletygarwch yn gyfranwyr mawr i economi Cymru a'r economi ranbarthol, gan gyfrif am 5.0% o GYC Cymru (£3.4 biliwn). Yn 2020, roedd y sectorau hyn yn cyflogi tua 151,000 o bobl ledled Cymru, gostyngiad o 161,000 yn 2019 ac, yn ystod yr amser hwnnw, ni newidiodd lefelau cyflogaeth cyffredinol yng Nghymru.[22] Dros y blynyddoedd diwethaf mae cyflogaeth yn y sectorau Twristiaeth a Lletygarwch fel cyfran o'r holl gyflogaeth yng Nghymru wedi amrywio. Mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu bod mwy o fusnesau Lletygarwch yn y rhanbarth nawr na phan ddechreuodd y pandemig, gyda llawer o weithredwyr bach yn mynd i'r farchnad.

Mae'r sectorau Twristiaeth a Lletygarwch wedi ei chael hi'n fwyfwy anodd recriwtio, yn rhannol oherwydd dewisiadau amgen yr ymddangosir eu bod yn talu'n well. Awgrymodd baromedr Twristiaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru fod Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, o gymharu â rhanbarthau eraill Cymru, wedi cael mwy o drafferth na neb yn ceisio cyflawni lefelau cwsmeriaid cyn-Covid. Mae Croeso Cymru hefyd wedi cydnabod bod problemau gyda hunaniaeth y brand Cymreig a delwedd wael gyffredinol y sectorau Twristiaeth a Lletygarwch ac yn ddiweddar lansiwyd ymgyrch farchnata i gyflwyno Cymru fel cyrchfan gydol-y-flwyddyn.

Y sector Manwerthu yw un o gyflogwyr mwyaf y sector preifat yng Nghymru, gan gyflogi tua 114,000 o bobl. Mae'n gyfrifol am 6.0% o GYC Cymru.[23] Dywedwyd bod y sector yn crebachu hyd yn oed cyn y pandemig Covid-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar y sector, ond mae ynghanol arallgyfeiriad. Mae'r ffordd rydyn ni'n siopa yn newid, mae rôl y siop yn esblygu, ac mae'r cyfleoedd cyflogaeth yn newid.

Yn ôl data EMSI, y rolau mwyaf cyffredin a hysbysebir o fewn y rhanbarth ar gyfer y sectorau hyn yw; Cynorthwywyr Gwerthu a Manwerthu (18.9%), Cynorthwywyr Cegin ac Arlwyo (8.2%), Staff Bar (6.5%), Gweinyddwyr (5.6%), Arianwyr Manwerthu a Gweithredwyr Til (4.1%).

Problemau a Heriau Sgiliau

Mae'r sector wedi dweud bod effaith gyfunol y pandemig Covid-19 a Brexit wedi creu'r 'storm berffaith' gan arwain at brinder sgiliau sylweddol, yn ogystal â cholli refeniw a chau lleoliadau. Mae'r heriau sgiliau presennol a phrinder llafur wedi'u gwaethygu eto gan yr argyfwng ynni sy'n dod i'r amlwg, gan orfodi sefydliadau i leihau cyllidebau hyfforddi'r gweithlu ac atal recriwtio. Mae sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu yn y dyfodol yn meddu ar y 'Sgiliau Sylfaenol' sydd eu hangen ar gyfer diwydiannau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid yn her allweddol i'r sectorau hyn. Fodd bynnag, mae cymhlethdod y seilwaith hyfforddi yn parhau i fod yn ffynhonnell o ddryswch i gyflogwyr a darpar fyfyrwyr yn y sector hwn.

Mae prinder sgiliau wedi cael ei gofnodi'n eang ar gyfer Cogyddion a staff arlwyo ond hefyd ar gyfer rolau fel Cynorthwywyr Manwerthu, Therapyddion Sba, Glanhawyr a Rheolwyr Digwyddiadau. Mae cyflogau Cogyddion a staff arlwyo wedi cynyddu'n sylweddol yn y rhanbarth o gymharu â'r lefelau cyn y pandemig; fodd bynnag, mae prinder sgiliau ar gyfer y rolau hyn yn parhau'n uchel ac mae recriwtio'n heriol.

Nododd Arolwg Sgiliau PSPRC mai recriwtio, heriau economaidd/ariannol, prinder sgiliau a datblygu staff oedd y prif heriau i'r sectorau Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth.

22 https://gov.wales/wales-visitor-economy-profile-2021-html
23 https://www.llyw.cymru/datganiad-sefyllfar-sector-manwerthu-html

Heriau a Chyfleoedd y Sector

1. CODI PROFFIL PRENTISIAETHAU O FEWN Y SECTOR LLETYGARWCH A SICRHAU BOD FFRAMWEITHIAU COGINIO'N ADDAS I'R DIBEN ER MWYN BODLONI TUEDDIADAU'R DIWYDIANT YN Y DYFODOL

2. GWELLA CYFLEOEDD PROFIAD GWAITH AR DRAWS Y SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH I BOBL IFANC MEWN YMDRECH I LEIHAU'R PRINDER SGILIAU PRESENNOL A CHWALU CANFYDDIADAU NEGYDDOL O YRFAOEDD YN Y SECTORAU HYN

3. CYNYDDU'R DEFNYDD O WYBODAETH AM Y FARCHNAD LAFUR I NODI BYLCHAU SGILIAU, PRINDER LLAFUR A THUEDDIADAU RECRIWTIO AR DRAWS Y SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH, A LLYWIO'R GWAITH O DDARPARU DARPARIAETH HYFFORDDIANT ÔL-16

4. EHANGU YSTOD A HYBLYGRWYDD CYFNODAU DYSGU BYR A HYFFORDDIANT DPP SYDD AR GAEL I'R GWEITHLU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH DRWY FENTRAU FEL Y RHAGLEN CYFRIF DYSGU PERSONOL (CDP)

5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â DARPARWYR HYFFORDDIANT A RHAGLENNI CYFLOGADWYEDD I HYRWYDDO PWYSIGRWYDD NEWYDD-DDYFODIAID I'R SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH YN Y DYFODOL SYDD Â'R 'SGILIAU SYLFAENOL' AR GYFER DIWYDIANNAU SY'N CANOLBWYNTIO AR GWSMERIAID, OCHR YN OCHR Â'R CYMWYSTERAU PRIODOL

6. ARCHWILIO DULLIAU ARLOESOL O DDARPARU HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU I GWRDD Â BYLCHAU SGILIAU A HERIAU RECRIWTIO'R SECTOR, MEGIS ACADEMÏAU SGILIAU A CHYNLLUNIAU PRENTISIAETHAU A RENNIR

7. PARHAU I FOD YN YMWYBODOL O'R BYLCHAU SGILIAU AR GYFER COGYDDION A THERAPYDDION SBA A HARDDWCH A SICRHAU BOD Y SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH YN PARHAU I GAEL EU CYDNABOD FEL CYFRANWYR ALLWEDDOL I ECONOMI SYLFAENOL CYMRU

8. SEFYDLU LLWYBRAU MWY EFFEITHIOL RHWNG DIWYDIANT AC ADDYSG BELLACH ER MWYN SYMLEIDDIO'R BROSES O BONTIO DYSGWYR AB I'R SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH, YN ENWEDIG I MEWN I BRENTISIAETHAU

9. ADEILADU AR Y DULLIAU GWEITHREDU EFFEITHIOL O RAN ADDYSG, GWYBODAETH, CYNGOR AC ARWEINIAD GYRFAOEDD I FYND I'R AFAEL Â CHANFYDDIADAU O'R SECTOR A HYRWYDDO'R SECTORAU LLETYGARWCH, MANWERTHU A THWRISTIAETH FEL DEWISIADAU GYRFA REALISTIG

Cynllun Gweithredu PSPRC

THEMÂU ALLWEDDOL TRAWSBYNCIOL PSPRC	RHANDDEILIAID ALLWEDDOL	CAMAU GWEITHREDU 2022-2025		
Cryfhau'r cynnig addysg bellach ôl-16 mewn sectorau â blaenoriaeth trwy fwy o arbenigo i ateb y galw gan gyflogwyr ledled y Ddinas-Ranbarth.	• Llywodraeth Cymru • CADY • Sefydliadau AB / AU • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr	Gyrru blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer darpariaeth ôl-16 drwy wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ac ehangu'r cynnig rhanbarthol CDP	Cyd-ddatblygu piblinellau talent drwy fodelau Academi / Bwtcamp fel ymyriadau sgiliau targedig a hyblyg sy'n para tua 12 wythnos	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) arfaethedig i gyflawni'r uchelgais o system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol gydgysylltiedig
Ehangu'r cynnig Prentisiaethau ar lefelau uwch drwy ymateb i newidiadau i bolisi'r llywodraeth	• Llywodraeth Cymru • Sefydliadau AB / AU • Darparwyr DSW • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr	Defnyddio tystiolaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad fframweithiau Prentisiaeth newydd ar bob lefel	Cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar brentisiaethau ar draws sectorau blaenoriaeth (gan gynnwys Prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau) ac adeiladu ar fodelau llwyddiannus Aspire, Y Prentis a Sgil Cymru.	Recriwtio mwy o hyfforddwyr ac aseswyr er mwyn sicrhau capasiti o fewn Dysgu yn y Gwaith ôl-16
Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddarparu agenda cyflogadwyedd Cymru a thargedu'r unigolion sydd bellaf o'r farchnad lafur	• Llywodraeth Cymru • Awdurdodau Lleol • Gyrfa Cymru • Sefydliadau AB / AU • Darparwyr DSW • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr	Dylanwadu ar gyfeiriad gweithgareddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig y rheini yn gysylltiedig â 'Phobl a Sgiliau', a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ledled De-ddwyrain Cymru	Cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Gwarant Pobl Ifanc (GPI), sy'n cynnig cymorth i mewn i waith, addysg, hyfforddiant, neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 i sicrhau na fydd unrhyw genhedlaeth yn cael ei cholli ledled Cymru	Cynhyrchu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur (GFL) i lywio datblygiad a darpariaeth prosiectau a rhaglenni sy'n dod i'r amlwg
Hyrwyddo technoleg ddigidol fel sector 'galluogi' allweddol a helpu i greu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu, a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd	• Llywodraeth Cymru • Sefydliadau AB / AU • Darparwyr DSW • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr	Datblygu ymhellach y diwydiant Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) i sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol yn cadw i fyny ag anghenion diwydiant	Mynd i'r afael â phrinder sgiliau critigol a hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant gwerthwr a gynigir drwy'r rhaglen Cyfrif Dysgu Personol (CDP)	Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir a Phrentisiaethau Lefel Gradd
Datblygu sgiliau i gefnogi'r broses o drosglwyddo tuag at economi carbon isel	• Llywodraeth Cymru • Sefydliadau AB / AU • Darparwyr DSW • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr • SWIC • WTUC	Grymuso cyflogwyr i bontio tuag at sero net a dylanwadu ar ddatblygiad SGC i adlewyrchu rolau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg	Adrodd ar y rhwystrau i gwrdd â gofynion sero net ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu Prentisiaethau a chyflwyno cymwysterau i gwrdd â dyheadau	Datblygu dulliau gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys SWIC a TUC Cymru a datblygu rhaglenni gwaith ar y cyd
Dylanwadu ar waith Cymwysterau Cymru a sicrhau bod cymwysterau sy'n dod i'r amlwg yn diwallu anghenion y diwydiant	• Llywodraeth Cymru • Cymwysterau Cymru • Sefydliadau AB / AU • Darparwyr DSW • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr	Gweithio gyda Cymwysterau Cymru drwy eu hadolygiadau sector a chydweithio fel rhan o brosesau gweithredu	Dylanwadu ar Colegau Cymru, FfHCC a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar y sgiliau i gyflawni yn erbyn gofynion newydd	Ymgysylltu â 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' i ail-lunio'r dirwedd gymwysterau drwy'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddefnyddio grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth
Adeiladu ar ddulliau gweithredu o ran addysg, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i fynd i'r afael â chanfyddiad sectorau a hyrwyddo sectorau allweddol fel dewisiadau gyrfa realistig	• Llywodraeth Cymru • Gyrfa Cymru • Sefydliadau AB / AU • Darparwyr DSW • Grwpiau Clwstwr Cyflogwyr	Cydweithio â Gyrfa Cymru wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu AGCAG ar y cyd.	Hyrwyddo mentrau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd gan gynnwys cynllun Venture P-RC, rhaglenni awdurdod lleol fel y fenter Addewid Caerdydd a rhaglenni cenedlaethol fel y Gyfnewidfa Addysg Busnes a'r Cynllun Partner Gwerthfawr	Ysbrydoli busnesau i ymgysylltu ag ysgolion fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r thema trawsbynciol Gyrfaoedd a Phrofiadau Gwaith (GPhG)

Manylion Cyswllt PSPRC

Ebost: RegionalSkillsPartnership@newport.gov.uk

Twitter: @CCR_RSP

Gwefan PSR: www.ccrsp.co.uk